Pecyn Dogfennau Cyhoeddus

POLICE AND CRIME PANEL
PANEL HEDDLU A THROSEDD

**Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru**

Dydd Llun, 31 Hydref 2016 at 2.15 pm
Siambr y Cyngor, Bodlondeb, Conwy

# RHAGLEN

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

2. **Datgan cysylltiad: Cod Ymddygiad Llywodraeth Leol**

   Caiff yr Aelodau eu hatgoffa bod yn rhaid iddynt ddatgan **bodolaeth** a **natur** eu cysylltiadau personol.

3. **Materion Brys**

   Rhybudd o faterion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys.

4. **Y wybodaeth ddiweddaraf gan y Prif Gwnstabl, Heddlu Gogledd Cymru**

5. **Cofnodion** (Tudalennau 1 - 10)

   Cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod cywir

6. **Cyhoeddiadau gan y Cadeirydd**

7. **Ystyried adroddiadau gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru:**

   **a)** Diweddariad cyfnodol Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (Tudalennau 11 - 25)

   **b)** Diweddariad ar Gyllideb 2016/17 (ar 31 Gorffennaf 2016) (Tudalennau 26 - 34)

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**8. Ystyried adroddiadau gan yr Awdurdod Cynnal:**

**a)** Crynodeb o’r cwynion sydd wedi dod i law (Tudalennau 35 - 39)

**b)** Ystyried Rhaglen Gwaith i’r Dyfodol ar gyfer Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (Tudalennau 40 - 42)

**9. Dyddiad y cyfarfod nesaf:**

Dydd Llun, 12 Rhagfyr 2016 @ 2.00 pm

**Aelodau’r Panel**

| | |
|---|---|
| Cyng Brian Blakeley | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cyng Glenys Diskin | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyng Philip C. Evans Y.H. | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng David Griffiths | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cyng Julie Fallon (Cadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng William T. Hughes | Cyngor Sir Ynys Mon |
| Cyng Bernie McCann | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cyng Dilwyn Morgan | Cyngor Gwynedd |
| Cyng Neville Phillips OBE Y.H. | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyng Gethin Williams | Cyngor Gwynedd |
| | |
| I'w gadarnhau | Aelod Annibynnol Cyfetholedig |

Sylwer: mae’n bosibl y bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ffilmio i’w ddarlledu’n fyw neu’n ddiweddarach ar wefan Panel yr Heddlu a Throsedd - ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau a fydd y cyfarfod cyfan neu ran ohono’n cael ei ffilmio. Gallai’r lluniau a’r recordiad sain gael eu defnyddio at ddibenion hyfforddi.

Yn gyffredinol, nid yw’r mannau eistedd cyhoeddus yn cael eu ffilmio. Fodd bynnag, drwy fynd i'r ystafell gyfarfod a defnyddio'r mannau eistedd cyhoeddus, rydych yn cydsynio i gael eich ffilmio a’r posibilrwydd y bydd y lluniau a’r recordiadau sain hynny’n cael eu defnyddio at ddibenion gweddarlledu a / neu hyfforddiant.

# PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

Dydd Llun, 27 Mehefin 2016, am 2.00 pm
Siambr y Cyngor, Bodlondeb, Conwy

| | |
|---|---|
| Yn Bresennol: | Y Cynghorydd Julie Fallon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) |
| | Y Cynghorwyr: Brian Blakeley (Cyngor Sir Ddinbych), Philip C. Evans Y.H. (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Bernie McCann (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Dilwyn Morgan (Cyngor Gwynedd), a Neville Phillips (Cyngor Sir y Fflint) |
| Aelod Lleyg/ Aelod Cyfetholedig: | Pat Astbury (Is-Gadeirydd) a Tim Rhodes. |
| Swyddogion: | Dawn Hughes (Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor) a Richard Jarvis (Cyfreithiwr) |
| Hefyd yn bresennol: | Stephen Hughes (Prif Weithredwr, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd), Kate Jackson (Prif Swyddog Cyllid, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd), ac Arfon Jones (Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru) |

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cynigiwyd ac eiliwyd penodi Pat Astbury (Aelod Annibynnol Cyfetholedig) yn Gadeirydd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ar gyfer 2016/17.

Cynigiwyd ac eiliwyd hefyd y dylid ethol y Cynghorydd Julie Fallon yn Gadeirydd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ar gyfer 2016/17.

Cynhaliwyd pleidlais, ac oherwydd bod y Cynghorydd Julie Fallon wedi cael mwyafrif y pleidleisiau, cafodd ei phenodi'n Gadeirydd.

**PENDERFYNWYD:**

**Penodi'r Cynghorydd Julie Fallon yn Gadeirydd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ar gyfer 2016/17.**

2. **PENODI IS-GADEIRYDD**

3. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd Glenys Diskin (Sir y Fflint), Y Cynghorydd David Griffiths (Wrecsam), Y Cynghorydd Wil Hughes (Ynys Môn) a'r Cynghorydd Gethin Williams (Gwynedd).

4. **DATGAN CYSYLLTIAD: COD YMDDYGIAD LLYWODRAETH LEOL**

Datganodd y Cynghorydd Julie Fallon gysylltiad personol, gan fod ei gŵr yn Swyddog yr Heddlu gyda Heddlu Gogledd Cymru.

5. **MATERION BRYS**

Dim.

6. **CYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD**

Croesawyd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru sydd newydd ei ethol, Mr Arfon Jones, i'r cyfarfod.

7. **COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 7 Mawrth 2016 i'w cymeradwyo.

Mewn perthynas â Chofnod 234 - Diweddariad Cyfnodol gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, dywedodd y Prif Weithredwr (Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd) wrth Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru bod yr ymchwiliad i'r digwyddiad ci ar yr A55 bellach wedi dod i ben ac y byddai adroddiad yn cael ei ddosbarthu i aelodau o'r Panel yn fuan.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod yr holl gamau eraill o'r cyfarfod ar 7 Mawrth 2016 wedi cael sylw a rhoddwyd gwybod i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn unol â hynny.

**PENDERFYNWYD-**

**Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 7 Mawrth 2016.**

8. **CWESTIYNAU I GOMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

Yn unol â'r weithdrefn ar gyfer Cwestiynau i Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, roedd Pat Astbury (Aelod Annibynnol Cyfetholedig) wedi rhoi'r cwestiynau canlynol i'r Comisiynydd:

1. Sut mae'r Comisiynydd yn bwriadu cydbwyso ei ymrwymiad i'r holl rolau cyhoeddus y mae'n eu gwneud?

   Er fy mod yn deall bod etholiadau yn gostus - os bydd Mr Jones yn ymddiswyddo, yna mae hynny'n fater i bobl Wrecsam yn unig ac nid gweddill Gogledd Cymru. Mae cynghorau yn neilltuo arian ar gyfer etholiadau annisgwyl ac maent yn digwydd yn rheolaidd. Mae 12 mis yn 25% o ddaliadaeth Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ac mae bod yn gweithio rhan amser o bosibl am flwyddyn gyfan yn achosi pryder i mi. Disgwyliadau cymunedau lleol fydd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru llawn amser rwy'n siŵr.

2. Penodi Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd - os nad yw’r rôl hon yn cael ei hysbysebu, yna sut mae'n cyd-fynd â Chyfle Cyfartal a ‘Bod yn Agored’ dan Egwyddorion Nolan?

*(Mae ymateb Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru i'r cwestiynau ynghlwm fel atodiad i'r cofnodion hyn.)*

Fel gyda'r weithdrefn, cymerwyd bod y cwestiwn ac ateb ‘wedi eu darllen’. Fodd bynnag, roedd y weithdrefn yn caniatáu i Mrs. Astbury (Is-gadeirydd) ofyn cwestiwn atodol, fel a ganlyn:

- Mewn perthynas â phenodi Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, sut roedd yr unigolyn ar gyfer y penodiad arfaethedig wedi dod i sylw'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru?

Mewn ymateb, dywedodd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ei fod wedi gweithio gyda hi o'r blaen, a hefyd yn ei hadnabod hi drwy'r broses wleidyddol.

## 9. DIWEDDARIAD CYFNODOL COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

Rhoddodd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ddiweddariad i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ar gyfer y cyfnod o 1 Chwefror 2016 i ddiwedd Ebrill 2016, a oedd yn cynnwys cyfnod olaf swydd rhagflaenydd Mr. Jones, Mr. Winston Roddick CB QC.

Roedd yr adroddiad yn trafod swyddogaeth ehangach y Panel dan Adran 28(6) Deddf Diwygio’r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol, i adolygu neu graffu ar benderfyniadau a wnaed neu gamau eraill a gymerwyd gan Banel yr Heddlu a Throsedd, ac roedd yn cynnwys:

- Craffu ar Heddlu Gogledd Cymru
- Perfformiad yn erbyn pedwar amcan y Cynllun Heddlu a Throsedd
- Diweddariadau Cyffredinol, a oedd yn cynnwys: Ymgysylltu a Chyfathrebu; Comisiynu; Cyd-bwyllgor Archwilio; Hyder a Moeseg; Penderfyniadau Allweddol; Cydraddoldeb ac Amrywiaeth; Diweddariad HMIC; Cydweithio; a Gohebiaeth.

Darparodd y Comisiynydd ddiweddariad mewn perthynas â'r canlynol hefyd nad oedd yn cael sylw yn ei ddiweddariad cyfnodol:

- Refferendwm yr UE:
  - Yn dilyn y penderfyniad i adael yr UE, gofynnwyd i'r Prif Gwnstabl a Chymdeithas Comisiynwyr Heddlu a Throsedd sut y byddai hyn yn effeithio ar blismona yng Ngogledd Cymru ac yn benodol, gwrthderfysgaeth. Byddai Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn adrodd yn ôl i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn unol â hynny.
- Gorwariant ar gyllideb TG:
  - Roedd ymchwiliad i'r gorwario ar y Gyllideb TG, yn dilyn newid cyflenwr, a ddylai fod wedi gwneud arbedion, yn awr wedi dod i

ben. Byddai argymhellion o'r ymchwiliad yn cael eu gweithredu yn unol â hynny ac roedd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn hyderus na fyddai achosion o'r fath yn digwydd yn y dyfodol. Byddai'r Cydbwyllgor Archwilio yn goruchwylio'r cynllun gweithredu ac yn monitro gweithrediad yr argymhellion.
  - Hysbysodd y Prif Swyddog Cyllid Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru y byddai'r gorwariant yn cael ei ariannu gan danwariant yn y gyllideb plismona ar gyfer 2016/17.
- Camerâu corff
  - Cyhoeddodd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ei fod wedi buddsoddi £163k mewn prynu dyfeisiau camera ychwanegol i'w gwisgo ar y corff. Byddai cyfanswm o 421 o gamerâu ar gael i bob Swyddog yr Heddlu/ Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSO) ar ddyletswydd a'u defnyddio i wella dulliau casglu tystiolaeth ac arwain at fwy o euogfarnau, yn enwedig mewn perthynas ag achosion trais domestig.
  - Dywedodd y Prif Swyddog Cyllid wrth Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru y byddai'r dyfeisiau yn cael eu hariannu o Gronfeydd Wrth Gefn Rheoli Newid.

Croesawodd Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru fuddsoddiad mewn camerâu ac roedd yn gobeithio y byddai hefyd yn lleihau nifer y cwynion maleisus a wnaed yn erbyn yr heddlu.

Gwnaeth Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru hefyd trafod y materion canlynol:

- Cynnydd mewn troseddau casineb yn dilyn canlyniad Refferendwm yr UE:
  - Dywedodd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru na fyddai troseddau casineb yn cael eu goddef a bod aelodau'r cyhoedd yn cael eu hannog i roi gwybod am ddigwyddiadau o'r fath. Awgrymwyd hefyd y dylai Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ryddhau datganiad (yn yr holl ieithoedd priodol), i annog y cyhoedd i roi gwybod am gam-drin hiliol.
- Effeithiolrwydd y system 101:
  - Cydnabu Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru fod pryderon wedi eu codi ynghylch y system; fodd bynnag, ni allai llwyddiant y system 101 gael ei fesur gan y gyfradd ymateb ar ei ben ei hun ac roedd ystyriaeth yn gorfod cael ei rhoi i effeithiolrwydd y cofnodi a'r ymateb dilynol i'r digwyddiad.
  - Dywedodd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru hefyd y dylid cydnabod bod y rhif 101 yn rhif di-argyfwng ac felly bod ymateb ar unwaith yn annhebygol.
- Defnyddio Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a dargyfeirio galwadau, pan nad oedd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ar ddyletswydd neu ddim ar gael:
  - Atgoffodd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru bod y defnydd o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn gyfrifoldeb i'r Prif Gwnstabl, fodd bynnag, roedd adolygiad o blismona lleol, gan

gynnwys Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn cael ei gynnal. Nid oedd nifer y Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn debygol o gynyddu ac felly roedd yn anodd sicrhau gweithwyr llanw priodol ar bob adeg.

- Gofynnwyd i Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ystyried darparu papur briffio ar sut mae galwadau yn cael eu rheoli pan fydd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu oddi ar ddyletswydd/ddim ar gael.

Diolchodd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru i Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru am ei ddiweddariad.

**PENDERFYNWYD-**

**(a) Nodi diweddariad y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.**

**(b) Bod y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ystyried rhyddhau datganiad (yn yr holl ieithoedd priodol) yn annog y cyhoedd i roi gwybod am unrhyw achosion o droseddau casineb, yn dilyn canlyniad Refferendwm yr UE.**

**(c) Bod Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn ystyried darparu papur briffio ar sut mae galwadau yn cael eu rheoli pan fydd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu oddi ar ddyletswydd/ddim ar gael.**

10. **ADRODDIAD BLYNYDDOL GAN GOMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer 2015/16 i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Roedd yr adroddiad yn ymwneud â'r flwyddyn ariannol Ebrill 2015 i Fawrth 2016 ac felly yn cwmpasu'r cyfnod cyn y cafodd Mr Arfon Jones, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd newydd ei ethol i'r swydd. Roedd yn canolbwyntio ar sut yr arferai Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru blaenorol, Mr. Winston Roddick CB QC wneud ei swyddogaethau a'i gyfrifoldebau yn ystod y flwyddyn a'r cynnydd a wnaed o ran cwrdd ag amcanion heddlu a throsedd o fewn y Cynllun Heddlu a Throsedd.

Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys cyflwyniad gan Mr. Jones a'i flaenoriaethau cychwynnol, a oedd yn cynnwys craffu ar sut roedd achosion cam-drin domestig yn cael eu trin, gyda'r nod o gynyddu euogfarnau a chynyddu'r defnydd o offer fideo ar y corff i gefnogi'r collfarnau hynny.

Cyfeiriodd yr Is-Gadeirydd (Pat Astbury) at y cynnydd mewn troseddau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau. Dywedodd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru y dylai'r ffocws fod ar sut i drin y caethiwed ac y gallai gwaith partneriaeth/comisiynu ar y cyd effeithiol helpu'r broses hon.

Gwnaeth y Cynghorydd Philip C. Evans Y.H. gyfeiriad at Gyflawni Strategaeth Ystadau a phryd oedd adeiladu'r orsaf heddlu newydd yn Llandudno adeiladu yn debygol o ddigwydd. Mewn ymateb, adroddodd y Prif Weithredwr (Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd), er nad oedd dyddiad pendant, roedd adeiladu i fod i ddechrau yn fuan. Byddai gwybodaeth bellach yn cael ei dosbarthu i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Mewn ymateb i gais i edrych ar Droseddau Amgylcheddol, megis baw cŵn, ac ati, dywedodd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru fod gan Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu y pwerau i gyhoeddi Hysbysiadau Cosb Benodedig, fodd bynnag, byddai'r adolygiad o blismona/SCCH lleol yn edrych ar faterion o'r fath.

**PENDERFYNWYD-**

**Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd 2015/16.**

11. **TREULIAU PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynodd y Swyddog Arweiniol a Chynghorydd Cyfreithiol i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru adroddiad, a oedd yn rhoi manylion costau gweinyddu Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, costau cyfieithu a hawliadau unigol Aelodau'r Panel am dreuliau a lwfansau.

Er mwyn caniatáu craffu cyhoeddus ar wariant Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, roedd gofyniad tryloywder wedi'i atodi fel amod y taliad grant unigol ac roedd yn ofynnol i Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru gyhoeddi fel isafswm, manylion eu holl wariant.

**PENDERFYNWYD-**

**Bod costau gweinyddu, a chostau cyfieithu'r Panel Heddlu a Throsedd a hawliadau Aelodau unigol y Panel am dreuliau a lwfansau yn cael eu nodi a'u cyhoeddi yn ôl y gofyn.**

12. **YSTYRIED RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL AR GYFER PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynwyd eu Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Gofynnodd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru bod Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru yn cael ei wahodd i fynychu'r cyfarfod nesaf ar 19 Medi 2016.

Dywedodd y Prif Weithredwr (Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd) hefyd wrth yr Aelodau y byddai'r Cynllun Heddlu a Throsedd diwygiedig yn cael ei gyflwyno i gyfarfod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ar 23 Ionawr 2017.

Gofynnwyd i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru hefyd i symud ei gyfarfod a drefnwyd ar gyfer 14 Tachwedd 2016 i 31 Hydref 2016, er

mwyn penodi Aelodau Annibynnol Cyfetholedig, yn dilyn proses recriwtio i gael ei wneud ym mis Medi a Hydref 2016.

**PENDERFYNWYD-**

**Cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol yn amodol ar y newidiadau uchod.**

13. **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF:**

Byddai cyfarfod nesaf Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ddydd Llun 19 Medi 2016 am 2.00pm.

(Daeth y cyfarfod i ben am 2.50 pm)

# PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

Dydd Iau, 28 Gorffennaf 2016, am 2.00 pm
Bodlondeb, Conwy

| | |
|---|---|
| YN BRESENNOL: | Y Cynghorydd Julie Fallon (Cadeirydd) |
| | Y Cynghorwyr: Brian Blakeley, Philip C. Evans Y.H., David Griffiths, William T Hughes, Bernie McCann a Neville Phillips |
| Aelod Lleyg/ Aelod Cyfetholedig | Pat Astbury (Is-Gadeirydd) a Tim Rhodes |
| Swyddogion: | Dawn Hughes (Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor), Richard Jarvis (Cyfreithiwr) a Nia Angharad Jones (Cyfieithydd) |
| Hefyd yn bresennol: | Arfon Jones (Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru) ac Eleanor Ann Griffith |

14. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Glenys Diskin (Sir y Fflint), Dilwyn Morgan (Gwynedd) a Gethin Williams (Gwynedd).

15. **DATGAN CYSYLLTIAD: COD YMDDYGIAD LLYWODRAETH LEOL**

Datganodd y Cynghorydd Julie Fallon gysylltiad personol, gan fod ei gŵr yn Swyddog yr Heddlu gyda Heddlu Gogledd Cymru.

Datganodd y Cynghorydd William Hughes gysylltiad personol, nad yw'n rhagfarnu gydag Eitem 5 ar y Rhaglen – Gwrandawiad Cadarnhau ar gyfer Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd, gan fod yr ymgeisydd yn gyd-gynghorydd yng Nghyngor Sir Ynys Môn.

Datganodd Tim Rhodes (Aelod Annibynnol Cyfetholedig) gysylltiad personol, nad yw'n rhagfarnu, gydag Eitem 5 ar y Rhaglen hefyd, gan ei fod yn adnabod yr ymgeisydd mewn rôl broffesiynol, gan ei fod yn gweithio i Gyngor Sir Ynys Môn.

16. **MATERION BRYS**

Dim.

17. **CYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD**

Gan ei bod yn debygol mai hwn fydd cyfarfod olaf Mr Tim Rhodes, gan ei fod yn gadael Gogledd Cymru, diolchodd y Cadeirydd i Mr. Rhodes am yr holl waith a wnaed ganddo fel aelod o Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a dymuno'n dda iddo ar gyfer y dyfodol.

18. **GWRANDAWIAD CADARNHAU AR GYFER DIRPRWY GOMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDD**

Daeth Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ynghyd i ystyried enwebiad Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer swydd Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

Mae Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (y Ddeddf) yn ei gwneud yn ofynnol i Banel yr Heddlu a Throsedd gynnal gwrandawiad cadarnhau yn gyhoeddus mewn perthynas â'r cynnig o uwch benodiad. Yn unol â Pharagraff 11 o Atodlen 1 y Ddeddf, roedd yr ymgeisydd yn bresennol yn y cyfarfod i ddiben ateb cwestiynau yn ymwneud â phenodi.

Ystyriodd Panel yr Heddlu a Throsedd lythyr gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn enwebu Eleanor Ann Griffith i swydd Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

Cyn adolygu'r uwch benodiad arfaethedig, mynegodd y Cadeirydd bryder, ar ran y Panel, y dylai bod Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd wedi cymryd y cyfle i gynnal proses recriwtio agored a thryloyw ar gyfer yr uwch benodiad hwn, yn enwedig o ran craffu cyhoeddus. Mynegodd y Panel bryder hefyd fod adroddiadau yn y wasg a chyfryngau cymdeithasol yn awgrymu fod yr ymgeisydd eisoes wedi'i phenodi, a oedd yn tynnu oddi ar rôl statudol Panel yr Heddlu a Throsedd i gynnal gwrandawiad cadarnhau ar gyfer yr uwch benodiad arfaethedig.

Cydnabu'r Comisiynydd y pryderon a fynegwyd, fodd bynnag roedd y Ddeddf yn caniatáu i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd ildio proses recriwtio ac enwebu ymgeisydd addas ar gyfer yr uwch swydd hon. Mewn perthynas ag adroddiadau yn y wasg a'r cyfryngau cymdeithasol, eglurodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd nad oedd unrhyw beth wedi'i gyhoeddi yn y wasg nes cyhoeddi rhaglen y gwrandawiad cadarnhau hwn.

Eglurodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ei resymau dros yr enwebiad, gan fod ei faniffesto yn rhoi pwyslais ar fynd i'r afael â throseddau ieuenctid a pheidio dad-droseddoli pobl ddiamddiffyn, felly roedd profiad blaenorol yr ymgeisydd yn golygu fod ganddi'r sgiliau sy'n ofynnol i gynorthwyo Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd i ddiwallu ei flaenoriaethau.

Roedd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn fodlon y byddai sgiliau, profiad, rhyw a chefndir yr ymgeisydd yn ategu at ei rai yntau, ac roedd yn

hyderus y gallai weithio'n dda gyda'r ymgeisydd i ddiwallu ei ddyletswyddau statudol fel Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

Adolygodd y Panel yr uwch benodiad arfaethedig a'r meini prawf a ddefnyddiwyd gan y Comisiynydd i bennu ei enwebiad ar gyfer y swydd hon.

Yn dilyn sesiwn holi ac ateb, aeth Panel yr Heddlu a Throsedd i sesiwn gaeedig i drafod a phenderfynu ar ei argymhellion.

**ARGYMHELLIAD:**

**Na ddylid penodi Eleanor Ann Griffith fel Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer Gogledd Cymru.**

19. **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF:**

Cynhelir cyfarfod nesaf Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ddydd Llun 19 Medi 2016 am 2.00pm.

(Daeth y cyfarfod i ben am 3.00 pm)

# Diweddariad ar gyfer y Panel Heddlu a Throsedd
# 31 Hydref 2016
## *Arfon Jones, Comisiynydd Heddlu a Throsedd, Gogledd Cymru*

## Cyflwyniad

Dyma fy adroddiad i'r Panel am y cyfnod 1 Mai hyd at ddiwedd mis Medi 2016. Mae felly'n cwmpasu ychydig fisoedd cyntaf o fy amser yn y swydd.

Nid yw'r adroddiad hwn yn ymwneud â'r gofynion adrodd statudol penodol. Mae'n ymwneud yn bennaf â swyddogaeth ehangach y panel o dan adran 28 (6) o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (y Ddeddf) i adolygu neu graffu ar benderfyniadau a wnaed, neu gamau eraill a gymerwyd gennyf fel Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (y Comisiynydd) ar gyfer gogledd Cymru, ac i lunio adroddiadau a gwneud argymhellion i mi fel Comisiynydd yn hynny o beth. Hefyd, yn unol ag adran 13 (1) o'r Ddeddf, mae'n darparu'r Panel â'r wybodaeth y disgwylir i'r Comisiynydd o fewn rheswm ei chyfrannu i'r Panel i gyflawni ei swyddogaethau (y ceisiadau penodol).

## Adran Un: Fy ngwaith craffu ar Heddlu Gogledd Cymru

Rwyf yn craffu ar yr Heddlu trwy fesur ei berfformiad yn erbyn pedwar amcan y Cynllun Heddlu a Throsedd (y Cynllun) a'r mesurau a nodir yn y Cynllun.  Y prif gyfrwng yr wyf am gyflawni'r swyddogaeth honno yw'r Bwrdd Gweithredol Strategol yr wyf yn ei gadeirio, ac y mae'r Prif Gwnstabl a'i uwch swyddogion yn eistedd arno.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar berfformiad yr Heddlu yn erbyn mesurau Cynllun 2016/17 (a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2016).

Rwyf wedi cael sicrhad bod y diwygiad mwyaf diweddar o'r Cynllun a gwblhawyd gan fy rhagflaenydd yn seiliedig ar ymgynghori cynhwysfawr ac felly yn adlewyrchu blaenoriaethau pobl Gogledd Cymru.

Arweiniodd y broses ymgynghori at gefnogaeth aruthrol ar gyfer pob un o'r pedair blaenoriaeth strategol, sef:

1. Ffurfio partneriaethau effeithiol
2. Atal troseddau
3. Darparu ymateb effeithiol
4. Lleihau'r niwed a'r risg o niwed

Fodd bynnag, fel y mae'r Panel yn ymwybodol, byddaf yn adolygu'r Cynllun yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn parhau i adlewyrchu beth sy'n bwysig i bobl Gogledd Cymru o ran plismona a throseddu, ac yng ngoleuni newidiadau i ganllaw'r Ysgrifennydd Gwladol neu unrhyw newid perthnasol arall mewn amgylchiadau. Rwy'n bwriadu ymgynghori'n eang yn rheolaidd ynghylch blaenoriaethau plismona Gogledd Cymru.

## Amcan 1 yr Heddlu a Throsedd: Gweithio mewn partneriaethau effeithiol

*I ddwyn yr heddlu i gyfrif, byddaf yn monitro dros gyfnod y Cynllun:*

• Lefel aildroseddu, gan gynnwys aildroseddwyd risg uchel o drais domestig;
• Gweithredu'r cynllun rhanbarthol cam-fanteisio'n rhywiol ar blant;
• Gweithredu'r concordat iechyd meddwl Cymru gyfan;
• Datblygu a gweithredu Cynllun Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel i gefnogi'r cynllun hwn.

Mae cydweithio mewn partnriaethau effeithiol yn helpu i gyflawni fy nhair blaenoriaeth arall, atal troseddu, darparu ymateb effeithiol a lleihau niwed a'r risg o niwed. Mae gweithio mewn partneriaeth yn galluogi ymatebion i fod yn fwy effeithiol a pharhaol yn eu budd i'r gymuned nag y byddent fel arall. Mae hefyd yn lleihau'r galw, a thrwy hynny'n cynyddu gallu staff rheng flaen o'r holl awdurdodau cyfrifol. Mae gwaith partneriaeth effeithiol yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig, i rannu gwybodaeth a chudd-wybodaeth a rhannu adnoddau lle bo angen i gyflawni nod cyffredin.

Bydd aelodau'r panel yn cofio bod Heddlu Gogledd Cymru wedi cynnal adolygiad effeithlonrwydd yn ddiweddar, a gwelwyd mai'r ddau alw uchaf ar yr Heddlu yw materion sy'n ymwneud ag ymholiadau ynghylch rhywun ar goll o'u cartref ac iechyd meddwl gwael. Dim ond mewn partneriaeth y gellir ymateb yn effeithiol i'r materion difrifol hyn. O ganlyniad, mae rhan o fy ngweithgareddau craffu yn cynnwys sefydlu sut mae'r Heddlu yn gweithio gyda'i bartneriaid i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Un enghraifft o waith partneriaeth rhagorol yw'r Tîm Troseddau Gwledig. Mae'r Tîm Troseddau Gwledig yn gweithio mewn partneriaeth â Chyfoeth Naturiol Cymru, undebau'r ffermwyr a'r gymuned wledig ac wedi cael llwyddiant mawr. Mae hyn wedi gweld hyder yn Heddlu Gogledd Cymru yn cynyddu o fewn ein cymunedau ffermio a gwledig ac mae gostyngiad o 80% bron mewn troseddau bywyd gwyllt. Cymaint yw llwyddiant y tîm, bod eu hesiampl yn cael ei fabwysiadu yn Awstralia, Seland Newydd a heddluoedd yn Lloegr. Dros y misoedd diwethaf rwyf wedi treulio cryn dipyn o amser yn mynd i ddigwyddiadau cymunedol gyda'r Tîm Troseddau Gwledig i sicrhau bod blaenoriaethau'r Tîm yn parhau i fod yn berthnasol, a bod eu strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â throseddau gwledig yn parhau i gael effaith drawiadol. Mae presenoldeb mewn digwyddiadau o'r fath wedi fy ngalluogi i gael gwell dealltwriaeth o faterion heddlu a throsedd sydd wir yn effeithio ar y gymuned wledig yng Ngogledd Cymru.

Mae potensial ar gyfer cynnydd yn y galw ar blismona sy'n ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, yn dilyn cyflwyno Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol a chyflwyno "Gofyn a Gweithredu" yn 2016/17. Mae fy swyddfa yn cadw llygad ar bob datblygiad ac mae wedi ymateb yn ddiweddar i ymgynghoriad ar y Strategaeth Genedlaethol newydd sy'n nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Gellir gweld copi o fy ymateb i'r ymgynghoriad hwn ar wefan Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Rwyf yn parhau i weithio gyda phartneriaid drwy Fwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, Bwrdd Cymunedau Diogelach Gogledd Cymru, Bwrdd Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau, y Byrddau Diogelu (ar gyfer plant ac oedolion) a'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol, i nodi ffyrdd o weithio gyda'n gilydd yn fwy effeithiol yn y cyfnod ariannol heriol hwn. Bydd hyn yn fy helpu gyda fy nghyfrifoldebau ehangach i wella diogelwch cymunedol a gwella'r broses o ddarparu cyfiawnder troseddol yn ein hardal, a fy ngalluogi i sicrhau bod yr holl asiantaethau a chyrff perthnasol yn cyflawni eu cyfrifoldebau yn hyn o beth.

Gallai aelodau'r Panel fod yn ymwybodol bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cyhoeddi yn ddiweddar y bydd nifer o lysoedd troseddol yng Ngogledd Cymru yn cau, gan gynnwys Dolgellau, Caergybi a Phrestatyn. Rwyf wedi bod yn gweithio'n agos gyda fy nghydweithwyr cyfiawnder troseddol ar draws Gogledd Cymru i sicrhau bod y darpariaethau amgen yn eu lle, i sicrhau nad oes yn rhaid i ddioddefwyr a thystion diamddiffyn deithio’n bell i roi eu tystiolaeth. Er fy mod yn gwrthwynebu'n gryf i’w cau, rwyf yn awyddus i weithio gyda fy mhartneriaid i sicrhau bod cyn lleied o effaith â phosibl. Mae fy swyddfa hefyd wedi bod yn gweithio gyda'r Heddlu i gynnal asesiad effaith cau ar adnoddau Heddlu Gogledd Cymru, sy’n crebachu.

Roeddwn yn falch o nodi bod Tîm Arbenigol Camfanteisio’n Rhywiol ar Blant Heddlu Gogledd Cymru, Awdurdod Trwyddedu Sir Ddinbych, Barnardo’s a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi darparu hyfforddiant gorfodol CSE, i bob gyrrwr tacsi ar draws Sir Ddinbych ym mis Gorffennaf.

Yn ddiweddar, ymwelais â Chanolfan Cymorth Dioddefwyr Gogledd Cymru, un enghraifft o sut mae gweithio mewn partneriaeth yn  effeithiol yn gallu gwneud gwahaniaeth enfawr i fywydau dioddefwyr, gan leihau'r effaith droseddu ar ein cymunedau. Ers agor ym mis Gorffennaf 2015, mae’r ganolfan wedi trin achosion mwy na 18,000 o ddioddefwyr o bob math o droseddau.

Cafodd tua 9,700 o bobl eu nodi fel dioddefwyr diamddiffyn neu ddioddefwyr ailadroddus sydd wedi mynd ymlaen i elwa ar becyn cymorth gwell. Mae fy Mhrif Weithredwr yn cadeirio Bwrdd Llywodraethu Aml-Asiantaeth y Ganolfan Cymorth Dioddefwyr. Prif ddiben y Bwrdd hwn yw craffu ar berfformiad y Ganolfan Cymorth Dioddefwyr yn erbyn y Dangosyddion Perfformiad Allweddol; adolygu canlyniadau arolygon adborth dioddefwyr; a sicrhau cydymffurfiaeth â'r fanyleb gwasanaeth.

Mae cynlluniau gweithredu ar gyfer Concordat Argyfwng Iechyd Meddwl Cymru wedi cael eu cwblhau a'u hadolygu gan gymheiriaid. Cafodd y cynlluniau gweithredu a gwblhawyd eu cyflwyno i'r Grŵp Tasg a Gorffen Cenedlaethol ar ddiwedd mis Mehefin.

## Amcan 2 yr Heddlu a Throsedd: Atal Trosedd


*I ddwyn yr heddlu i gyfrif o ran yr amcan hwn, byddaf yn monitro dros gyfnod y Cynllun:*

- Lefel cyfanswm y troseddau a gofnodwyd
- Lefel y troseddau sy'n seiliedig ar y dioddefwr
- Lefel y troseddau a ddatrysir, yn ôl math


- Lefel yr ymddygiad gwrthgymdeithasol a gofnodwyd
- Lefel byrgleriaeth ddomestig
- Nifer y Swyddogion Heddlu, gwirfoddolwyr a chadetiaid rhan amser

Nid yw'r mesurau hyn yn dargedau perfformiad. Eu pwrpas yw fy nghynorthwyo i ddwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif. Mae'r wybodaeth a gyflwynir isod yn cael ei defnyddio yn fy ngwaith craffu ar yr amcanion penodol hyn.

Mae'r siartiau isod, a gynhyrchwyd gan y Prif Gwnstabl, yn dangos nifer yr holl droseddau a gofnodwyd a throseddau sy'n seiliedig ar ddioddefwyr a gofnodir bob 3 mis ers mis Ebrill 2010.




Ffigur 1: Yr holl droseddau a gofnodwyd yn fisol hyd at fis Gorffennaf 2016 (ffynhonnell: Heddlu Gogledd Cymru)




Ffigwr 2: Troseddau yn seiliedig ar y dioddefwr a gofnodwyd yn fisol hyd at fis Gorffennaf 2016 (ffynhonnell: Heddlu Gogledd Cymru)

Dywedodd y Prif Swyddogion wrthyg yn y cyfarfod SEB diweddaraf ym mis Medi y rhagwelir y bydd y cynnydd presennol yn nifer y troseddau yn lleihau wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen. Erbyn wythnos

13, roedd cyfanswm troseddau a gofnodwyd wedi codi 12.2%, ond erbyn wythnos 18 roedd y cynnydd hwnnw wedi gostwng i 8.8%. Rwyf wedi cael fy sicrhau nad yw'r ddau brif ffactor y tu ôl i'r cynnydd yn gysylltiedig â lefelau uwch gwirioneddol o adrodd am droseddau gan y cyhoedd, ond yn hytrach, maent o ganlyniad i system cofnodi troseddau sy'n fwy effeithlon yn lleol a newidiadau cenedlaethol i brosesau cofnodi troseddau. Mae'r newidiadau hyn yn gwneud y newid canrannol flwyddyn ar flwyddyn yn anodd iawn i'w farnu.

Mae Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr Ebrill 2016 yn dangos bod gan Ogledd Cymru gyfraddau trosedd cymharol isel o'i gymharu â heddluoedd Cymru a Lloegr, ar gyfer troseddau meddiangar personol:

- Byrgleriaeth Ddomestig (9fed gorau allan o 43 o heddluoedd)
- Byrgleriaeth Annomestig (13eg)
- Troseddau Cerbydau (5ed)

Ar gyfer yr un cyfnod, mae gan Ogledd Cymru gyfraddau troseddu cyfartalog ar gyfer troseddau treisgar:


- Trais ag anaf (25 allan o 43)
- Trais heb anaf (25ain)

Gwelodd Gogledd Cymru gynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n mynychu safleoedd trwyddedig canol trefi yn ystod y Pencampwriaethau Pêl-droed Ewropeaidd. Fe wnaeth yr Heddlu gynllunio'n fanwl yn ystod y twrnamaint gan ganolbwyntio ar gynyddu gwelededdd.

Mae'r ffocws ar droseddwyr byrgleriaeth yn parhau; mae gweithio ar y cyd â Glannau Merswy a Swydd Gaerlleon wedi gweld arestiadau cadarnhaol o droseddwyr ar gyfer byrgleriaethau allweddi car sydd wedi digwydd yn yr ardal Ganolog.

Rwyf yn cael fy mriffio'n rheolaidd ar weithrediadau a wneir gan yr Heddlu i daclo trais. Mae llawer o'r gweithrediadau hyn yn cynnwys yr Heddlu yn gweithio mewn partneriaeth â'i bartneriaid strategol.

**YMDDYGIAD GWRTH-GYMDEITHASOL (ASB):**




Mae ASB wedi dangos cynnydd bach hyd yma eleni, gyda lefelau'n unol â'r lefelau tymhorol disgwyliedig a welwyd yn y blynyddoedd blaenorol.

Mae rhanbarth plismona Arfordirol Sir Ddinbych yn parhau i ymgymryd â gwaith sylweddol yn canolbwyntio ar y meysydd carafannau ar yr arfordir sy'n gweld mewnlifiad tymhorol mawr o ymwelwyr, a chynnydd tymhorol mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Deallaf fod Parc Caia yn Wrecsam yn parhau i dynnu ar adnoddau ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol, ond rydym wedi gweld gwelliant sylweddol oherwydd yr adnoddau ychwanegol a ddefnyddiwyd yn ystod y Gwanwyn eleni. Rwyf wedi cael sicrhad bod yr adnoddau ychwanegol bellach wedi'u hymgorffori a byddant yn aros yn eu lle yn yr ardal.

**Nifer yr heddlu, gwirfoddolwyr a chadetiaid gweithredol rhan-amser:**

Mae nifer yr heddlu rhan-amser yn parhau i dyfu gyda chyfanswm bellach wedi cyrraedd 190 (cynnydd o 25.8% ers y llynedd). Ymunodd y cymeriant diweddaraf o 20 â Heddlu Gogledd Cymru ar 6 Mehefin 2016 ac mae cymeriant pellach o 20 i fod i ddechrau ym mis Medi.

Yn ystod mis Gorffennaf, chwaraeodd yr Heddlu Rhan-amser rôl arweiniol mewn gweithred yn targedu unigolion oedd yn eisiau ar warant ar draws ardal yr Heddlu. Gwelodd y weithred hon 14 o bobl yn cael eu harestio ar warantau a oedd yn weddill, ac a welodd nifer o bobl eraill wedi eu targedu yn ystod y weithred hon yn mynychu'r llys yn wirfoddol, yn dilyn ymchwiliadau i ddod o hyd iddynt. Cafwyd adborth cadarnhaol iawn ynglŷn â brwdfrydedd a phenderfynoldeb yr Heddlu Rhan-amser yn ystod yr Ymgyrch hon.

Mae Prif Arolygydd Arbennig bellach wedi cymryd cyfrifoldeb am yrru maes Gwasanaethau Arbenigol SC yn ei flaen, a byddant yn ymgysylltu ag Uwch Dimau Rheoli ar draws yr Heddlu dros yr wythnosau nesaf i hybu'r gallu arbenigol.

Mae nifer y gwirfoddolwyr o fewn yr Heddlu bellach yn 122, a nifer y cadetiaid yn 60 (cynnydd o sero).

Mae cyfanswm o 3573 o oriau gwirfoddoli wedi'u cynnal ers dechrau 2016.

Mae'r Cadetiaid wedi cyrraedd y pwynt canol o'u cwricwlwm yn llwyddiannus. Mae rhai o'r gweithgareddau ymgysylltu a gynhaliwyd gan y Cadetiaid dros yr haf wedi cynnwys y canlynol: Eisteddfod yr Urdd yn y Fflint; Diwrnod y Lluoedd Arfog; cynnal patrolau ar droed (fel rhan o ymgyrch Diogelwch Cymunedol i atal troseddau cerbydau) ym Mangor; mynychu digwyddiad gwasanaethau ieuenctid yn Pontins, Prestatyn; cynorthwyo'r gwasanaethau tân ac ambiwlans mewn ymateb ffug i wrthdrawiad traffig ar y ffordd; cynnal arolwg cyhoeddus ar ran Tîm Cymdogaeth Ddiogelach yr heddlu ym Mhrestatyn; roedd cadetiaid Glannau Dyfrdwy hefyd yn bresennol yn Jiwbili Bwcle; carnifal Coed-llai, carnifal yr Wyddgrug a diwrnod 999 Treffynnon.

Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi sicrhau £2,000 o Gronfa Arloesi'r Heddlu tuag at gostau sefydlu tair o'r Uned Cadetiaid newydd.

## Amcan 3 yr Heddlu a Throsedd: Darparu ymateb effeithiol

Y pedwar mesur o'r amcan hwn fel y nodir yng Nghynllun 2016/17 yw:

- Amseroedd ymateb cyfartalog presenoldeb mewn argyfyngau heddlu
- Galwadau nad ydynt yn argyfwng yn cael eu dosbarthu fel 'galwadau wedi'u gadael'
- Y targed arbedion ar gyfer 2016/17 yn cael eu cyflawni

- Yr adborth a dderbyniwyd drwy arolygon dioddefwyr, yn enwedig lefelau boddhad

Mae’r amser ymateb ar gyfartaledd yn parhau i fod yn sefydlog ar 17.2 munud.

Er bod yr amser ymateb ar unwaith ar gyfartaledd wedi cynyddu yn Ebrill, Mai a Mehefin 2016, roedd y nifer o ddigwyddiadau ar unwaith a fynychwyd o fewn y targed o 20 munud yr uchaf y mae wedi bod ers peth amser.

Mae gwaith yn parhau gydag Ambiwlans Cymru i ymchwilio i'r posibilrwydd o glinigwyr sy'n gweithio o fewn yr Ystafell Reoli i ddarparu cyngor meddygol a chynorthwyo gyda dyraniad ambiwlans.

Mae trafodaethau hefyd yn parhau â Llinell Gymorth Iechyd Meddwl Cymru a’r Uned Amddiffyn Uned Pobl Ddiamddiffyn, gyda’r bwriad o allu trosglwyddo galwadau priodol rhwng asiantaethau.

Mae’r gyfradd galwadau a gaiff eu gadael ar gyfer galwadau nad ydynt yn rhai brys yn destun craffu rheolaidd, ac ar hyn o bryd yn sefyll o amgylch tua 4.5%, sydd yn ostyngiad pwynt canran o 0.8 ar y 5.3% a gafodd ei adrodd i’r Panel ym Mehefin 2016.

Byddaf yn parhau i fonitro cyfradd y galwadau a gaiff eu gadael, ond rwy’n credu'n gryf na all llwyddiant y system 101 gael ei fesur gan y cyflymder y mae'r galwadau'n cael eu hateb yn unig, ond hefyd drwy effeithiolrwydd y cyswllt cychwynnol, yn enwedig adnabod yr elfen ddiamddiffyn.

Mae gwelliannau mewn bodlonrwydd dioddefwyr yn parhau ar gyfer camau dilynol, triniaeth a’r profiad cyfan.

Fel ag yr oedd ym Mawrth 2014, roedd Heddlu Gogledd Cymru wedi’u rhestru yn y 40fed safle'n genedlaethol (Cymru a Lloegr- allan o 43) o ran bodlonrwydd dioddefwyr gyda 'phrofiad cyfan'. Fodd bynnag, erbyn mis Mawrth 2016 roedd yr Heddlu wedi codi 27 o lefydd i’r 13eg safle. Mae hefyd yn symud o 41fed yn genedlaethol o ran bodlonrwydd dioddefwyr gyda 'Chamau Dilynol' i 9fed (cynnydd o 32 lle).

## Amcan 4 yr Heddlu a Throsedd: Lleihau niwed a'r risg o niwed

*Mae gan Gynllun 2016/17 bedwar mesur ar gyfer penderfynu pa mor effeithiol yw perfformiad yr Heddlu o ran yr amcan hwn. Sef:*

- Nifer y bobl a laddwyd neu a anafwyd yn ddifrifol (KSI) mewn gwrthdrawiadau ar y ffordd
- Nifer yr arestiadau gan gyflawnwyr sy’n cam-fanteisio’n rhywiol ar blant
- Nifer yr achosion o bobl sydd â delweddau anweddus o blant a erlynwyd
- Nifer y troseddau casineb yr adroddir amdanynt

Mae nifer y bobl a laddwyd neu a anafwyd yn ddifrifol (KSI) ar ein ffyrdd wedi gostwng 19.2% o flwyddyn i flwyddyn o 83 i 67.

Digwyddodd Ymgyrch Darwen, dull amlochrog Cymru gyfan wedi’i gydlynu, yn ystod yr haf. Ei brif bwrpas oedd lleihau'r risg o feicwyr modur yn cael eu hanafu'n ddifrifol neu’n marw ar ein ffyrdd o ganlyniad i wrthdrawiad. Mae Heddlu Gogledd Cymru yn gweithio'n agos gyda'i bartneriaid i sicrhau bod yr holl gyfleoedd peirianneg, addysg a gorfodi yn cael eu defnyddio'n llawn.

Dechreuodd yr ymgyrch defnyddio cyffuriau ac yfed a gyrru ym mis Mehefin ac roedd yn rhedeg tan 10 Gorffennaf. Roedd cyfanswm o 78 o arestiadau yfed a gyrru a 36 o arestiadau gyrru ac wedi defnyddio cyffuriau. Roedd ymgyrch eleni yn talu sylw arbennig i yrru dan ddylanwad cyffuriau, yn enwedig ymhlith gyrwyr ifanc. Mae myfyrwyr wedi bod allan yn bresennol gyda phlismona ffyrdd i hybu ymwybyddiaeth ymhlith eu cyfoedion iau, drwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol mewn ymdrech i gyrraedd cynulleidfa ehangach.

Mewn perthynas â cham-fanteisio’n rhywiol ar blant, cafodd 42 o gyflawnwyr eu harestio’r flwyddyn blismona hon hyd yma (2016/17) ac fe gafodd 111 o ddelweddau anweddus o achosion plant eu canfod (sy'n cynrychioli cynnydd o 141.3% y flwyddyn hyd yn hyn).

Mae'r Tîm Onyx, tîm plismona arbenigol sy'n nodi ac yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc sydd fwyaf mewn perygl o gam-fanteisio’n rhywiol ar blant, wedi cyflwyno hyfforddiant pwrpasol i'r Swyddogion Ymgysylltu ag Ysgolion dros wyliau'r haf, mewn perthynas â gwybodaeth a chasglu gwybodaeth.

Mae’r ffilm fer “Camfanteisio’n Rhywiol ar Blant Pobl Ifanc” yn ffilm a wnaed ar y cyd â phlant o ysgolion lleol a Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru, a chafodd ei lansio yn Eisteddfod yr Urdd yn y Fflint. Roedd y tîm Onyx hefyd mewn stondin gwybodaeth yn Eisteddfod yr Urdd.

Mae lefelau'r Troseddau Casineb a adroddwyd ychydig yn uwch ar gyfer y flwyddyn. Mae 176 o Droseddau Casineb wedi’u hadrodd, o'i gymharu â 159 ar yr un adeg y llynedd ar hyn o bryd. Mae Digwyddiadau Casineb Hiliol yn dangos bod Brexit wedi effeithio ar roi gwybod am ddigwyddiadau. Yn ystod yr wythnos ar ôl yr etholiad, adroddwyd 14 o droseddau casineb hiliol, gyda 3 yn ymwneud â Brexit.

## Yr heddlu a throsedd yn eich ardal chi

Mae gwefan y swyddfa gartref http://www.police.uk yn rhoi gwybodaeth ystadegol am droseddau a digwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n benodol i god post.

## Adran Dau: Diweddariadau Cyffredinol

Yn yr adran hon rwy’n darparu crynodeb i’r Panel ynglŷn â’r prif bethau mae fy rhagflaenydd a minnau wedi’u gwneud ers cyfarfod diwethaf y Panel.

## Ymgysylltu a Chyfathrebu

Rhan o fy rôl yw darparu gwybodaeth a galluogi’r gymuned i ymgysylltu â phlismona.

Ers cymryd fy swydd rwyf wedi cyfarfod â'r canlynol (yn ogystal â swyddogion a staff o Heddlu Gogledd Cymru):

- Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Swydd Gaerlleon
- Swyddog Diogelwch y Ffyrdd ac Ymgyrchoedd Cyfreithiol Beicio’r DU
- Jan Williams o Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu
- Ian Barrow ac Emma Wools o NOMS
- Huw Jones o Undeb Amaethwyr Cymru
- Golygydd y Daily Post
- Cynrychiolwyr o Relate Cymru

- Dusty Kennedy a John Wrangham o Fwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru
- Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol
- Andy Jones o'r Gwasanaeth Prawf
- Cyng Hugh Jones o Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Gogledd Cymru)
- Cynrychiolwyr o'r Mosgiau Lleol
- Chris Hume o Bartneriaeth Gan Bwyll
- Ann Jones AC
- Eleri Butler o Gymorth i Fenywod Cymru
- Clive Wolfendale o CAIS
- Cadeirydd PACT
- Sarah Rochira, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Cyng Bernie Attridge
- Carl Sargeant AC
- Cynrychiolwyr o Gymdeithas yr Iaith
- Mr Jon Collins o’r Cyngor Cyfiawnder Adferol
- Russ Trent a Nick Dann o Garchar Berwyn
- Ed Beltrami o CPS
- Bryn Hall o Brosiect Unity
- Thomas Guiney o’r Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai
- Joanne Hillman, Gwarchod Cymdogaeth Llandudno
- Rebecca Egan, Pennaeth Diogelu yn y Swyddfa Gartref

Rwyf hefyd wedi mynychu’r cyfarfodydd canlynol:

- Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru
- Cyfarfod Cyffredinol yr APCC yn Llundain
- Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Gogledd Cymru
- Fy Myrddau Gweithredol Strategol a Rheoli
- Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol
- Y Gynhadledd Galluoedd
- Grŵp Plismona Cymru Gyfan
- Rhwydwaith Gwrth Fasnachu a Chaethwasiaeth Fodern
- Grŵp Gweithredol y Bwrdd Cynllunio Ardal

Yn ogystal â'r uchod, ymwelais ag Eisteddfod yr Urdd yn y Fflint, Sioe Frenhinol Cymru, Prosiect Warws Wrecsam, y Ganolfan Cymorth Dioddefwyr, Canolfan Merched Gogledd Cymru, yr Uned Troseddau Cyfundrefnol Rhanbarthol yn Warrington, y Siop Un Stop yn Wrecsam i weld gwaith yr IDVA, mynd ar batrôl ar droed yn Llandudno, yn ogystal â mynychu Sioeau Amaethyddol Meirionydd, Ynys Môn, a Dinbych a Fflint.

Rhoddais anerchiad agoriadol hefyd ar hyfforddiant a drefnwyd ar gyfer trwyddedigion yn Wrecsam a chyfarfod â phrif swyddogion o'r chwe chyngor gwirfoddol yng Ngogledd Cymru, yn ogystal â nifer o randdeiliaid cydraddoldeb.

Ers cyfarfod diwethaf y panel, yn ogystal â chyfarfod gyda chynrychiolwyr y gymuned, partneriaid ac aelodau'r cyhoedd, rydw i a fy Nirprwy wedi cynnal nifer o weithgareddau cyfryngau allweddol. Mae'r rhain yn cynnwys:

Arweinydd newydd yr heddlu yn addo gwasanaethu'r bobl heb ofn na ffafriaeth

Comisiynydd yr heddlu'n rhybuddio y gallai gadael yr Undeb Ewropeaidd wneud Gogledd Cymru yn fwy peryglus

Cais gan y Comisiynydd i fwy o unigolion osod camera ar banel clociau eu cerbyd

Gweithredu'n llym yn erbyn pedoffiliaid ar-lein

Ar gamera

Comisiynydd yr Heddlu yn ymateb yn gadarn i gamdriniaeth hiliol yn dilyn y refferendwm

Digwyddiad Balchder LGBT Gogledd Cymru

Tawelu meddwl ein cymunedau

Bos newydd yr heddlu am dargedu troseddu yng nghefn gwlad

Dioddefwr camdriniaeth yn croesawu'r arian sydd wedi cael ei roi i wasanaeth cefnogi

Gorsaf heddlu newydd Wrecsam fydd y gorau yng Nghymru

Comisiynydd yr heddlu yn addo datblygu cynllun sy'n anelu at atal pobl ifanc rhag aildroseddu

Mae secstio yn broblem gynyddol ymysg plant mor ifanc ag wyth oed

Comisiynydd yr Heddlu yn cadarnhau ei ddirprwy newydd

Prosiect Pathfinder

Cronfa atal trosedd sy'n taro troseddwyr lle mae'n eu brifo fwyaf – yn eu pocedi

Taclo gyrwyr sy'n defnyddio ffonau symudol

Comisiynydd yr heddlu yn annog cefnogwyr pêl-droed i ymddwyn yn dda

Canmol gwaith SCCH Delyth

## Y Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd, Ann Griffith

Gofynnodd y Panel gael ei hysbysu am waith y dirprwy gomisiynydd. Mae'n gwbl ymroddedig i fy rhaglen waith brysur iawn, ac fe'i nodir isod:

Mae ymrwymiadau'r dirprwy gomisiynydd ers iddi gymryd y swydd yn Awst wedi cynnwys y gweithgareddau canlynol:

- Cyfarfod cynrychiolwyr o Gymdeithas Menywod a Chymdeithas Heddlu Asiaidd a Du Gogledd Cymru;

- Cyfarfod cynrychiolwyr o Garchar Berwyn i drafod gwasanaethau ymyriadau teuluol a lleihau aildroseddu;
- Cyfarfod cynrychiolwyr o Wasanaeth Erlyn y Goron er mwyn trafod gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth;
- Cyfarfod cynrychiolwyr o ganghennau sirol Undeb Amaethwyr Cymru i drafod eu blaenoriaethau plismona;
- Mynychu cyfarfod i drafod cost Gorsaf Heddlu Wrecsam newydd, Llai;
- Trafod craffu ar Uned Amddiffyn Pobl Ddiamddiffyn yr Heddlu;
- Ymweliad â'r Ddalfa yn Llanelwy;
- Ymweld â'r Ganolfan Cymorth Dioddefwyr i drafod tueddiadau sy'n dod i'r amlwg;
- Derbyn sesiwn friffio am yr Uned Troseddau Cyfundrefnol Rhanbarthol;
- Mynychu cyfarfodydd o Fwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn, a fy Mwrdd Gweithredol Strategol;
- Mynychu digwyddiad a gynhaliwyd gan Eternal Community Media yn Wrecsam i ddathlu Mis Adferiad Rhyngwladol a derbyn sesiwn friffio gan ganolfan adsefydlu cyffuriau ac alcohol aml-raddol Open Minds;
- Mynychu cyfarfod a drefnwyd gan Policing Insight yn San Steffan i drafod goblygiadau lleol Brexit ynghylch plismona a diogelwch;
- Mynd ar batrôl ar droed gyda swyddogion plismona lleol ym Mlaenau Ffestiniog;
- Derbyn gwybodaeth am recriwtio swyddogion newydd yn Ne Gwynedd;
- Mynychu digwyddiad ymgynghori a drefnwyd gan Lywodraeth Cymru ynghylch ei Strategaeth Genedlaethol ar fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol;
- Mynychu Seremoni Wobrwyo Gwasanaeth Hir Heddlu Gogledd Cymru;
- Ymweld â Childline ym Mhrestatyn;
- Cyfarfod â Dave Evans o PACT;
- Derbyn sesiynau briffio am yr Ystafell Reoli, Adolygiad Effeithlonrwydd yr Heddlu, a’r Adran Gweinyddu Cyfiawnder.

## Comisiynu

Rwyf yn parhau i fonitro'r prosiectau / gwasanaethau sydd wedi cael cyllid er mwyn sicrhau eu bod yn rhoi gwerth am arian i'r cyhoedd yng Ngogledd Cymru, a'u bod yn cefnogi darparu fy Nghynllun Heddlu a Throsedd. Rwyf wedi ymweld â nifer o ddarparwyr gwasanaethau a gomisiynwyd ers cymryd y swydd gan gynnwys y Ganolfan Cymorth Dioddefwyr, y Tîm Troseddau Gwledig, Canolfan Merched Gogledd Cymru a nifer o'r Ymgynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig ac ati. Rwyf yn credu ei bod yn hanfodol fy mod yn cyfarfod â sefydliadau, rhanddeiliaid, a defnyddwyr gwasanaethau allweddol o’r fath, i werthfawrogi gwerth y gwasanaethau yr ydym yn eu comisiynu.

Mae pob Partneriaeth Diogelwch Cymunedol wedi cael gwybod bod y cyllid ar gyfer 2016-17 yn parhau i fod yr un fath, ynghyd â'r tair blaenoriaeth, sef cam-drin domestig, ymddygiad gwrthgymdeithasol a gwella diogelwch.

Mae'r holl wasanaethau sydd wedi cael eu comisiynu ar gyfer 2016-17 yn perfformio yn ôl y proffil.

Rwyf ar hyn o bryd yn y broses o weithio gyda fy mhartneriaid i ddatblygu proses a fyddai'n ein galluogi i gomisiynu gweithgareddau ar draws y rhanbarth ar y cyd, mewn perthynas â meysydd gwaith allweddol. Y meysydd sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd yw trais domestig, caethwasiaeth fodern, cyfiawnder ieuenctid a chefnogi dioddefwyr troseddau. Mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal ar hyn o bryd gydag awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru i drafod manteision comisiynu ar y cyd (sef gwneud y gorau o gyfleoedd a darparu gwerth am arian), ac i symud y darn pwysig hwn o waith yn ei flaen.

Rwyf wedi cyfranogi'n ddiweddar i ddatblygu model Comisiynu ar y Cyd, ar gyfer gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau, gyda Bwrdd Cynllunio Ardal Gogledd Cymru.

Bwrdd Cynllunio Ardal Gogledd Cymru yw'r corff partneriaeth sy'n gyfrifol am gefnogi cynllunio, comisiynu a rheoli perfformiad gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ar lefel Ranbarthol, cafodd ei ffurfio yn swyddogol yn 2010, er dim ond yn ystod 2013/14 y cafodd ei sefydlu'n llawn.

Mae gan y Bwrdd Cynllunio Ardal gyllideb flynyddol o £4.9m i fynd i'r afael â'r mater o gamddefnyddio sylweddau yng Ngogledd Cymru. Fodd bynnag, mae'r cyfrifoldeb statudol dros fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yng Nghymru yn nwylo'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol.

Tasg allweddol ar gyfer y Bwrdd Cynllunio Ardal yw helpu awdurdodau cyfrifol i gyflawni eu dyletswyddau mewn perthynas â chamddefnyddio sylweddau, drwy gynhyrchu Strategaeth Gomisiynu strategol, sy'n seiliedig ar ganlyniadau, er mwyn darparu strwythur a ffocws ar gyfer datblygu gwasanaethau / mentrau i fynd i'r afael ag effaith cyffuriau a defnyddio alcohol.

Mae cyfeiriad strategol ar gyfer camddefnyddio sylweddau yn cael ei osod drwy'r Strategaeth Comisiynu Bwrdd Cynllunio Ardal 2014-17, sydd wedi ei dyfeisio'n cynnwys asesiad anghenion llawn o boblogaeth Gogledd Cymru.

Yn ychwanegol at y gyllideb Bwrdd Cynllunio Ardal o £4.9m, mae'r bwrdd iechyd hefyd yn gwario £4.9m ar wasanaethau camddefnyddio sylweddau bob blwyddyn ac rydym ni (Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd) yn gwario £1.2 miliwn.

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw welededd ar y gwariant ymhlith partneriaid ac felly gall un gymryd yn ganiataol bod rhywfaint o ddyblygu yn y gwasanaethau a gomisiynir.

Rwyf o'r farn y dylai cyfanswm y gyllideb o £11.2 miliwn gael ei gyfuno, a'i lywio gan asesiad o anghenion unigol. Felly, rydym yn y broses o ddatblygu strategaeth gomisiynu ar y cyd a fydd yn ceisio cyflawni un gyfres o ganlyniadau y cytunwyd arnynt.

Bydd hyn yn darparu arbedion effeithlonrwydd sylweddol ac yn sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o'r swm a wariwyd ar y rheng flaen a defnyddwyr gwasanaeth.

## Cronfa Partneriaeth Gymunedol

Mae'r 'Gronfa Gyllideb Gyfranogol ar gyfer Gogledd Cymru' wedi ei hailenwi yn 'Gronfa Partneriaeth Gymunedol.'

Cafodd 'Eich Cymuned Eich Dewis' ei lansio'n swyddogol ar 5 Medi ac roedd gan ymgeiswyr tan 30 Medi i gyflwyno eu ceisiadau am arian.

Bydd £40,000 ar gael eleni i sefydliadau cymunedol ar draws Gogledd Cymru.

Yn ystod 2015, cyflwynwyd 35 o geisiadau gan wahanol sefydliadau ac fe gefnogodd y gronfa 14 o grwpiau ar draws y rhanbarth gyda grantiau gwerth cyfanswm o £42,000 ar ôl y bleidlais gyhoeddus.

## Hyder a Moeseg

Mae fy swyddfa yn cael ei chynrychioli ar Bwyllgor Safonau Moesegol a Hyder yr Heddlu. Pwrpas y pwyllgor hwn yw adolygu gweithrediadau'r heddlu o'r Cod Moeseg ac i ystyried ansawdd y materion gwasanaeth a hyder y cyhoedd mewn perthynas â Heddlu Gogledd Cymru.

Trwy fynychu'r pwyllgor, mae fy swyddfa yn gallu monitro rheolaeth yr Heddlu o'r Cod Moeseg a sut mae'n trin a datblygu materion ansawdd gwasanaeth a hyder.

## Penderfyniadau

Fy mwriad yw darparu'r Panel gyda chrynodeb o'r holl benderfyniadau rwyf wedi'u gwneud ynghyd â chrynodeb o pam y gwnaed y penderfyniad. Hyderaf y bydd hyn yn cefnogi'r Panel wrth iddo gyflawni ei ddyletswydd o ran craffu ar fy mhenderfyniadau.

Mae'r tabl isod yn nodi'r penderfyniadau allweddol a wnaed gan fy rhagflaenydd Mr Winston Roddick a minnau o 1 Mai 2016 tan 8 Awst 2016.

| Dyddiad | Teitl | Crynodeb |
|---|---|---|
| 03.05.16 | Cylchoedd o gefnogaeth ac atebolrwydd | Darparu cyllid i gefnogi adsefydlu troseddwyr rhyw. Mae hyn yn cwrdd ag un o amcanion allweddol y Cynllun Heddlu a Throsedd i leihau aildroseddu ac amddiffyn pobl. |
| 03.05.16 | Llosgi Bwriadol yn Wrecsam | Darparu cefnogaeth ariannol i'r Bwrdd Cyflawni Partneriaeth i gynorthwyo gyda lleihau llosgi bwriadol yn ardal Wrecsam. |
| 06.06.16 | SARC - Gwasanaeth Plant Newydd | Darparu cefnogaeth i ddioddefwyr ifanc o drais a cham-drin rhywiol. Mae cyllid ychwanegol bellach ar gael i ddarparu gwasanaeth cymorth a chynghori newydd yn benodol ar gyfer dioddefwyr ifanc |
| 06.06.16 | Stepping Stones | Mae'r diwygiad diweddaraf o'r Cynllun Heddlu a Throsedd yn cadarnhau bod amddiffyn pobl ddiamddiffyn yn flaenoriaeth, rwyf felly wedi darparu cefnogaeth Cydlynydd gwirfoddol |
| 06.06.16 | CYPSVA | Mae delio â throseddau rhywiol yn flaenoriaeth, mae cyllid parhaus ar gael oddi wrth y Grant Gwasanaethau Dioddefwyr ar gyfer Ymgynghorydd Trais Rhywiol Plant a Phobl Ifanc. |
| 25.05.16 | Cod Ymddygiad | Yn unol â Phrotocol Plismona 2011 a Gorchymyn Corff Plismona Lleol Etholedig (Gwybodaeth Benodedig) 2011, 12 a 13, mae'r Cod Ymddygiad wedi cael ei gymeradwyo. |
| 06.06.16 | Rhestr Wirio foesegol | Cymeradwyo yn rhannol y rhestr wirio foesegol a ddarparwyd gan yr Arglwydd Bew, Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus. |

| | | |
|---|---|---|
| 20.06.16 | Balchder | Darparu cyllid o gyllid Troseddau Casineb Llywodraeth Cymru tuag at ddigwyddiad BALCHDER Gogledd Cymru ym Mangor. |
| 22.06.16 | Fideos wedi'u gwisgo ar y corff | Cymeradwyo cyllid ar gyfer 301 o fideos ychwanegol i'w gwisgo ar y corff, er mwyn cynorthwyo gydag euogfarnu trais domestig a diogelu swyddogion yr heddlu sydd ar ddyletswydd. |
| 22.06.16 | Adleoli OHU / PSD / ART | Cymeradwyo ariannu adleoli swyddfeydd o fewn ystâd Bae Colwyn gydag arbediad refeniw blynyddol o £70,000 wedi'i ragweld. |
| 23.06.16 | ICVA | I ymuno â Chymdeithas Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol (ICVA). Mae ICVA yn gyfrifol am godi ymwybyddiaeth y cyhoedd am hawliau, iechyd a lles pobl a gedwir yn y ddalfa |
| 22.07.16 | Llai | Cymeradwyo'r cyllid ychwanegol i'r Ystafell Gorchymyn a'r Ddalfa Ddwyreiniol yn Llai. Mae achos busnes llawn wedi'i eithrio o dan adran 43 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (masnachol sensitif). |
| 25.07.16 | Costau Cyfreithiol | Yn unol â Chylchlythyr y Swyddfa Gartref 43/01, darparu cymorth ariannol i swyddog mewn achosion cyfreithiol pan fyddant wedi ymddwyn yn ddidwyll ac sydd wedi arfer eu barn yn rhesymol. Bernir bod hysbysiad penderfyniad llawn i'w eithrio o dan Adran 40 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (gwybodaeth bersonol) |
| 02.08.16 | Diswyddo gwirfoddol cyn-weithiwr | Cymeradwyo'r tâl diswyddo gwirfoddol i gyn-weithiwr. Bernir bod hysbysiad penderfyniad llawn i'w eithrio o dan Adran 40 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (gwybodaeth bersonol). |
| 08.08.16 | Fframwaith Partneriaethau a Chydweithio | Ar gyngor canfyddiadau'r Tîm Archwilio Mewnol, i fabwysiadu'r Fframwaith Partneriaeth a Chydweithio ar y Cyd i sicrhau bod trefniadau a pholisïau ar y cyd yn cael eu llywodraethu'n addas. |

Os bydd angen, mae gwybodaeth ychwanegol ar gael ar fy ngwefan ('Sut rydym yn gwneud penderfyniadau').

## Craffu yn Gyffredinol

Yn ychwanegol at y gweithgareddau a amlinellir yn Adran 1 yr adroddiad hwn, rwyf yn parhau i graffu tu allan i'r llys (rhybuddion, hysbysiadau cosb benodedig a phenderfyniadau adferol ac ati) a gyhoeddwyd gan yr Heddlu, ac rwy'n cael fy nghynrychioli ar Banel Craffu OOCD amlasiantaethol sy'n cyfarfod yn chwarterol ac yn adrodd i'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol.

Cafodd Panel Craffu Amddiffyn Pobl Ddiamddiffyn (PVP) ei sefydlu yn ddiweddar, ac rwyf hefyd yn cael fy nghynrychioli ar y Panel hwnnw. Pwrpas y Panel hwn yw cyfarfod bob deufis i drafod meysydd thematig o Amddiffyn Pobl Ddiamddiffyn (Trais a Throseddau Rhywiol Difrifol, Cam-drin Domestig, Cam-drin ar sail Anrhydedd, Priodasau dan Orfod, Anffurfio Organau Cenhedlu Merched, Iechyd meddwl, Stelcio / Aflonyddu, Pobl ar Goll, a Cham-drin Plant ac ati) ac i samplu pob ardal ar hap, ar sail strwythur dreigl. Disgwylir i aelodau'r Panel rannu'r themâu allweddol a dysgu gyda chydweithwyr yn eu gwahanol adrannau ac i gynorthwyo hyn, mae crynodeb o ganfyddiadau'r panel ar gael drwy'r cadeirydd mewn fformat 'gwersi a ddysgwyd'.

Mae fy swyddfa hefyd yn craffu ar gydymffurfiad yr Heddlu â Rheolau Cyfrif y Swyddfa Gartref drwy fynychu cyfarfodydd Grŵp Defnyddwyr Cofnodi Troseddau'r Heddlu.

## Cynllun Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd

O dan statud, mae'n ofynnol i mi fod â chynllun sy'n darparu ar gyfer monitro annibynnol o gyfleusterau'r ddalfa a thriniaeth y rhai a gedwir yn y ddalfa. Rwyf wedi cyhoeddi adolygiad blynyddol o'r cynllun ar fy ngwefan.

Adolygiad Blynyddol o'r Ddalfa 2015-16

## Plant yr effeithir arnynt gan rieni yn y carchar

Bydd y Panel yn ymwybodol bod Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd wedi lansio Prosiect Plant yr effeithir arnynt gan rieni yn y carchar y llynedd, gyda'r bwriad o dynnu sylw at anghenion y plant hyn, gan weithio mewn partneriaeth i adnabod y plant dan sylw, ac i edrych ar ba wasanaethau sy'n bodoli ymlaen llaw y gellir eu rhoi i'r plant hyn. Mae'r gwaith hwn nawr yn cael ei symud ymlaen gan y Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel ac rwyf yn falch o adrodd bod nifer o'n partneriaid strategol bellach wedi cytuno i ariannu dwy swydd i gefnogi datblygiad y gwaith hwn, mewn partneriaeth.

Yn y cyfamser, mae cynrychiolwyr o fy swyddfa wedi bod yn cwrdd yn aml gyda chynrychiolwyr o Garchar Berwyn, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, a Barnardo's, i ddylunio a datblygu'r ganolfan ymwelwyr a'r gwasanaethau ymyriadau teuluol a fydd yn y carchar newydd. Felly, mae fy swyddfa yn gweithio'n agos gyda'r carchar i sicrhau bod cymorth sy'n torri tir newydd yn cael ei roi i deuluoedd y carcharorion, er mwyn cynorthwyo gydag adsefydlu'r troseddwyr ar ôl eu rhyddhau. Mae'n galonogol iawn gweld y pwyslais sy'n cael ei roi ar adsefydlu, ac felly lleihau aildroseddu, yn natblygiad y carchar.

## Diweddariad HMIC

Ym mis Gorffennaf, cynhaliodd HMIC arolygiad o Heddlu Gogledd Cymru sy'n cynnwys effeithlonrwydd, cyfreithlondeb ac arweinyddiaeth. Disgwylir rhyddhau'r adroddiad terfynol ar ddiwedd mis Hydref neu ddechrau mis Tachwedd.

## Gohebiaeth

Ffigurau Gohebiaeth o 1 Mai 2016 tan 30 Medi 2016

| **Categori Gohebiaeth** | **Nifer** |
|---|---|
| Adborth penodol ynglŷn â'r gwasanaeth plismona | *102* |
| Adborth cyffredinol ynglŷn â'r gwasanaeth plismona | 78 |
| Cwynion a gyfeiriwyd at PSD | 10 |
| Materion Staffio | 10 |
| Gohebiaeth gyffredinol | 596 |

## Adroddiad gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd

**Teitl:** **Diweddariad ar Gyllideb 2016/17 (ar 31 Gorffennaf 2016)**

**Cyfarfod:** **Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, 31 Hydref 2016**

**Awdur:** **Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid**

**1. Cyflwyniad**

1.1 Nod y papur hwn yw darparu diweddariad i aelodau'r panel ynglŷn â'r gyllideb plismona ar gyfer Gogledd Cymru ar 31 Gorffennaf 2016 (mis 4).

**2. Argymhellion:**

2.1 Nodi'r adroddiad.

**3. Diweddariad ar Gyllideb 2016/17**

3.1 Cafodd cyllideb net ar gyfer Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ei chymeradwyo gan Banel yr Heddlu a Throsedd ar 25 Ionawr 2016 yn £141.067m. Mae hyn yn cynnwys cyllideb net o £0.741m ar gyfer Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, a £1.166m net ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir. Ar 31 Gorffennaf 2016, cyfanswm y rhagamcan hyd at ddiwedd y flwyddyn oedd tanwariant net o £0.899 miliwn.

3.2 Disgwylir i wariant fod yn unol yn fras â'r gyllideb. Fodd bynnag, mae hyn yn cynnwys nifer o ragamcanion o orwariant a thanwariant. Y mwyaf arwyddocaol o'r rhain yw:

- Gweithwyr - rhagwelir tanwariant o £0.506m.
  Dyma effaith net o nifer o ffactorau, y mwyaf arwyddocaol o'r rhain yw cyflog swyddogion yr heddlu (tanwariant £0.369m) a chyflog staff yr heddlu (tanwariant £0.365m). Mae hwn yn gyfuniad o swyddi gwag (y bwriedir eu llenwi) ac arbedion o ganlyniad i famolaeth a thâl salwch. Mae'r tanwariant yn cael eu gwrthbwyso gan orwariant amcanol mewn taliadau pensiwn uniongyrchol (£0.299m). Mae'r gyllideb ar gyfer taliadau pensiwn uniongyrchol yn seiliedig ar chwe ymddeoliad ar sail afiechyd bob blwyddyn, ac roedd chwech yn y pedwar mis cyntaf o'r flwyddyn ariannol gyfredol. Felly, mae'r rhagamcaniad wedi cynyddu gwariant tebygol ar achosion pellach yn ystod gweddill y flwyddyn.

- Costau Safle – rhagwelir tanwariant o £0.216m
  Er bod y gyllideb wedi gostwng o'i chymharu â blynyddoedd blaenorol, yn seiliedig ar amcangyfrifon cyfredol o gost a defnydd, rhagwelir tanwariant o £0.289m ar gostau ynni.

- Cludiant - rhagwelir tanwariant o £0.306m.
  - Costau Gwasanaethu (rhagwelir tanwariant £0.118m). Mae rheolaeth weithredol o gontractau gwasanaethu a chynnal a chadw cerbydau yn cyfrannu at y tanwariant hwn a ragwelir.

    - Costau Gwasanaethu (rhagwelir tanwariant £0.189m). Mae costau disel yn 7.6% yn is na'r adeg hon y llynedd. Fodd bynnag, er bod prisiau olew yn wedi gostwng, maent yn awr yn codi eto, ac mae'r bunt wedi gwanhau yn sgil refferendwm yr UE. Felly, bydd angen i hyn gael ei fonitro'n ofalus yn ystod y flwyddyn.

- Cyflenwadau a Gwasanaethau – rhagwelir gorwariant o £0.239m
    - Yn dilyn adolygiad o'r prif gontract TG, disgwylir ychydig o danwariant (£0.060m) mewn TG a Chyfathrebu.
    - Cyflenwadau a gwasanaethau eraill (rhagwelir gorwariant o £0.298m). Mae llawer o hyn yn ymwneud â gwariant a ariennir gan grant, ac felly bydd yn cael ei gyfateb gan gynnydd mewn incwm.

- Arian wrth Gefn
    - Mae'r cyllidebau wrth gefn yn cael eu trosglwyddo i gyllidebau eraill fel y mae'r anghenion yn cael eu nodi. Mae'r driniaeth yn union yr un fath â blynyddoedd blaenorol.
    - Yn ychwanegol at y cyllidebau wrth gefn y cytunwyd arnynt cyn dechrau'r flwyddyn ariannol, mae nifer o arbedion a gynlluniwyd ar gyfer 2017/18 wedi cael eu gwireddu yn gynnar. Mae hyn wedi rhyddhau £1.252m yn 2016/17.
        - Mae'r swm wedi cael ei drosglwyddo i'r gyllideb "Rheoli Newid", a fydd yn cael ei defnyddio i ariannu newidiadau sy'n galluogi effeithlonrwydd neu arbedion yn y dyfodol. Mae prosiectau i'w hariannu yn y modd hwn wedi cael eu nodi, felly mae'r gwariant cysylltiedig yn cael ei ragamcan yn y gyllideb.
        - Bydd y gyllideb rheoli newid yn cael ei throsglwyddo ymhellach i gyllidebau priodol fel y caiff eitemau unigol o wariant eu nodi.

3.3 Rydym ar hyn o bryd yn rhagamcan incwm ychwanegol o £0.126m.

3.4 Ar hyn o bryd mae rhagamcan taliadau cyfalaf, taliadau wrth gefn (ac eithrio rheoli newid) a'r gronfa diogelwch cymunedol yn unol â'r gyllideb.

3.5 Rhoddir crynodeb o'r cyllidebau a'r rhagamcanion isod.

| | Cyllideb Wreiddiol £'000 | Cyllideb 31 Gorffennaf 2016 £'000 | Gwir Gost 31 Gorffennaf 2016 £'000 | Rhagamcan hyd Ddiwedd y Flwyddyn £'000 | Rhagamcan o'r Amrywiant £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | | | |
| Gweithwyr | 122,370 | 122,037 | 39,659 | 121,531 | (506) |
| Adeiladau | 7,696 | 7,607 | 2,592 | 7,391 | (216) |
| Cludiant | 4,942 | 4,638 | 1,022 | 4,332 | (306) |
| Cyflenwadau a gwasanaethau | 19,635 | 19,865 | 5,483 | 20,104 | 239 |
| Taliadau Dyledion a Chyfraniadau at Gyfalaf | 1,504 | 1,614 | - | 1,614 | - |
| Arian wrth Gefn (gweler uchod) | 800 | 1,889 | - | 1,889 | - |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cronfa diogelwch cymunedol | 1,166 | 1,166 | 13 | 1,166 | - |
| **Cyfanswm Gwariant** | **158,113** | **158,816** | **48,769** | **158,027** | **(789)** |
| | | | | | |
| **Incwm** | **(17,133)** | **(17,836)** | **(4,262)** | **(17,946)** | **(110)** |
| | | | | | |
| **Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn** | **87** | **87** | **-** | **87** | **-** |
| | | | | | |
| **Cyfanswm y Gwariant Net** | **141,067** | **141,067** | **44,507** | **140,168** | **(899)** |
| | | | | | |
| **Cyllid** | | | | | |
| Grantiau | (72,745) | (72,745) | (25,352) | (72,745) | - |
| Praesept | (68,322) | (68,322) | (22,774) | (68,322) | - |
| **Cyfanswm Cyllid** | **(141,067)** | **(141,067)** | **(48,126)** | **(141,067)** | **-** |
| | | | | | |
| **Tanwariant net** | | | | | **(899)** |

3.6 Mae’r uchod yn cynnwys incwm a gwariant yn ymwneud â’r grant Gwasanaethau Dioddefwyr gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae £820,323 wedi cael ei ddyrannu i Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru. Mae £770,469 wedi'i ymrwymo ar gyfer comisiynu gwasanaethau dioddefwyr, gyda'r gweddill yn cyfrannu at ein costau cysylltiedig. Mae gwasanaethau a gomisiynir yn cynnwys: Canolfan Cymorth Dioddefwyr, IDVA a ISVA.

3.7 Hefyd wedi ei gynnwys uchod mae Swyddfa'r Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Y gyllideb ar gyfer y flwyddyn yw £741,000. Fel ar 31 Gorffennaf, roedd gwariant yn £223,653, a'r canlyniad a ragwelwyd oedd £787,125. O'r gorwariant amcanol, £45,737 yw canlyniad y gwariant ar gyngor cyfreithiol, a bu traul pellach ers y dyddiad hwnnw. Bydd hyn yn cael ei ariannu gan gronfa Gyfreithiol yr OPCC.

## 4. Cyfalaf

4.1 Y rhaglen gyfalaf wreiddiol ar gyfer 2016/17 oedd £17.048m yn unol â’r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Gan gymryd i ystyriaeth y llithriant o £3.304m a rhai mân ychwanegiadau a dileadau, mae hyn yn cynyddu i £20.065m posibl, fodd bynnag, bydd peth o'r gwariant hwn bellach yn cael ei wario mewn blynyddoedd i ddod, ac ar ôl ail-broffilio, y gyllideb ar gyfer 2016/17 yw £16.835m.

4.2 Mae'r rhan fwyaf o'r rhaglen ystadau yn ymwneud â dim ond tri chynllun, sydd wedi'u nodi yn unigol yn y tabl: Llai Wrecsam, Canol Tref Wrecsam a Llandudno:

- Llai Wrecsam: comisiynwyd adroddiad manwl ar gostau i ddadansoddi'r rhesymau dros y cynnydd. O ganlyniad, cytunwyd ar y gyllideb ddiwygiedig ar 15 Gorffennaf 2016, sy'n cynnwys llawer o newidiadau i'r cynlluniau gwreiddiol.
- Canol Tref Wrecsam: mae gwaith yn mynd rhagddo a disgwylir iddo gael ei gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol nesaf.

- Llandudno: Dechreuodd y gwaith ym mis Awst, ac mae i fod i gael ei gwblhau ym mis Gorffennaf 2017.

4.3 Cerbydau: mae archebion ar gyfer cerbydau ar fin cael eu gosod rhwng nawr a diwedd mis Tachwedd. Bydd y gwariant a ragwelir yn cael ei adolygu ar y pwynt hwn.

4.4 TG a Chyfathrebu: Mae nifer o brosiectau mawr yn y camau olaf o'u cynllunio ac ymgynghori, gyda'r mwyafrif o'r gwariant yn cael ei ddisgwyl yn ystod ail hanner y flwyddyn ariannol hon.

4.5 Rhoddir crynodeb o'r cyllidebau cyfalaf a'r rhagamcanion isod.

| Cynllun | Gwariant wedi'i gario drosodd £'000 | Cyllideb 2016/17 (ailbroffiliwyd) £'000 | Gwariant 2016/17 £'000 | Cyllideb - Blynyddoedd i ddod £'000 | Cyfanswm cyllideb £'000 | Gwariant at 31.07.16 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfleuster newydd Llai Wrecsam | 2,894 | 6,959 | 140 | 11,295 | 21,148 | 3,034 |
| Cyfleuster canol tref Wrecsam | 62 | 1,049 | - | 688 | 1,799 | 62 |
| Adeilad newydd Llandudno | 450 | 1,150 | 12 | 1,150 | 2,750 | 462 |
| Ystadau eraill | 4,703 | 745 | 41 | 315 | 5,792 | 4,744 |
| Cerbydau ac offer | 6,648 | 1,889 | 148 | 4,500 | 13,028 | 6,796 |
| TG a Chyfathrebu | 2,581 | 5,043 | 953 | 3,570 | 11,167 | 3,534 |
| **Cyfanswm Rhaglen Gyfalaf** | **17,338** | **16,835** | **1,294** | **21,518** | **55,684** | **18,632** |

## 5. Cyllideb 2017-2018 a thu hwnt

5.1 Mae'r Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn ymgynghori ar gynnwys ei Gynllun Heddlu a Throsedd, a bydd y gyllideb ar gyfer 2017-2018 ymlaen yn adlewyrchu ei flaenoriaethau.

5.2 Derbynnir cyfran sylweddol o incwm Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd drwy praesept, bydd adroddiad praesept yn cael ei gyflwyno i gyfarfod Panel yr Heddlu a Throsedd ar 21 Ionawr 2017.

5.3 Atodiad 1 yw'r canllawiau ar gyfer craffu ar y praesept, ac mae hefyd yn dangos bod yr amserlen yng ngogledd Cymru ychydig o flaen yr amserlen statudol, fel ein bod yn gallu darparu gwybodaeth i awdurdodau lleol mewn modd amserol.

## 6 Goblygiadau

| | |
|---|---|
| Amrywiaeth | Dim goblygiadau ar wahân o ran amrywiaeth |
| Atebolrwydd | Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi gwybod i Banel yr Heddlu a Throsedd am y sefyllfa monitro refeniw a chyfalaf fel ag y mae ddiwedd Gorffennaf 2016.<br><br>Mae cyllid digonol yn hanfodol i gyflawni cynllun yr heddlu a throsedd ac i ddiwallu ein gofynion cyfreithiol. |
| Cyfreithiol | Dim goblygiadau cyfreithiol ar wahân |
| Risg | Dim goblygiadau risg ar wahân |
| Cynllun yr Heddlu a Throsedd | Dim goblygiadau heddlu a throsedd ar wahân. |

**Paneli yr Heddlu a Throsedd - Craffu ar Braeseptau**

Mae'r nodyn canllaw hwn yn egluro'r broses ar gyfer gwaith craffu panel yr heddlu a throsedd (PHTh) o braesept arfaethedig y comisiynydd heddlu a throsedd (CHTh) a dylid eu darllen ochr yn ochr â:

Atodlen 5 Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011; ("y Ddeddf")
Rhan 2 o Reoliadau Paneli Heddlu a Throsedd (Praeseptau a Phenodi Prif Gwnstabl) 2012 ("y Rheoliadau")

Mae nodiadau canllaw ar wahân yn amlinellu'r gwaith o graffu penodi prif gwnstabl wedi cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r nodyn canllaw hwn.

**Cefndir**

Mae Atodlen 5 o'r Ddeddf yn nodi'r broses ar gyfer cyflwyno praesept, gan gynnwys rôl y panel wrth adolygu'r praesept arfaethedig, eu pŵer i wrthod y praesept a'r camau sydd i'w cymryd os ydynt yn gwrthod y praesept arfaethedig.

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi mwy o fanylder i'r Ddeddf, gan gynnwys terfynau amser sy'n berthnasol i gamau'r broses a'r broses ar gyfer adolygu a chyflwyno praesept ddiwygiedig.

**Mae Atodlen 5 angen:**

- I CHTh roi gwybod i'r panel am braesept arfaethedig;
- I'r panel adolygu'r praesept arfaethedig;
- I'r panel wneud adroddiad i CHTh ar y praesept arfaethedig (gall hyn gynnwys argymhellion);
- I adroddiad y panel (os ydynt yn gwrthod y praesept arfaethedig) i gynnwys datganiad eu bod wedi ei wrthod;
- Penderfyniad o wrthod i'w gytuno gan ddwy ran o dair o aelodau'r panel;
- y CHTh i roi ystyriaeth i'r adroddiad a wnaed gan y panel (gan gynnwys unrhyw argymhellion yn yr adroddiad);
- y CHTh i roi ymateb i'r panel am eu hadroddiad (ac unrhyw argymhellion o'r fath);
- y CHTh i gyhoeddi'r ymateb.

Mater i'r panel yw penderfynu sut y dylid cyhoeddi ymateb i adroddiad neu argymhellion.

Os nad yw'n cael ei wrthod ac mae'r CHTh wedi cyhoeddi ei ymateb i adroddiad y panel, gall y CHTh wedyn gyhoeddi'r praesept arfaethedig - neu braesept gwahanol (ond os yw'n unol â'r argymhelliad yn adroddiad y panel i wneud hynny yn unig).

**Mae'r Rheoliadau angen:**

- I CHTh roi gwybod i'r panel am braesept arfaethedig **erbyn 1 Chwefror**;
- I'r panel adolygu a gwneud adroddiad i CHTh ar y praesept arfaethedig (os yw'n gwrthod y praesept ai peidio) **erbyn 8 Chwefror;**
- lle mae'r panel yn gwrthod y praesept, y CHTh i ystyried ac ymateb i adroddiad y Panel, a chyhoeddi ei ymateb, gan gynnwys praesept ddiwygiedig, **erbyn 15 Chwefror**;
- Y Panel, ar ôl derbyn ymateb gan y Comisiynydd yn eu hysbysu o'r praesept diwygiedig, i adolygu'r praesept diwygiedig a gwneud ail adroddiad i'r CHTh **erbyn 22 Chwefror**;
- Y CHTh i roi sylw i ac ymateb i ail adroddiad y Panel a chyhoeddi ei ymateb **erbyn 1 Mawrth**;

**Adroddiad y Panel ar y praesept arfaethedig**

Os bydd y panel yn methu adrodd i CHTh erbyn 8 Chwefror, bydd y broses graffu yn dod i ben, hyd yn oed os yw'r panel wedi pleidleisio i wahardd y praesept arfaethedig, a gall y CHTh gyhoeddi’r praesept arfaethedig.

**Ymateb CHTh i wrthod y praesept**

Lle bydd y panel yn gwrthod y praesept arfaethedig, mae'n rhaid i'r CHTh roi ystyriaeth i'r adroddiad a wnaed gan y panel, rhoi ymateb i'r panel am yr adroddiad a chyhoeddi'r ymateb, erbyn 15 Chwefror. Yn ei ymateb, mae'n rhaid i CHTh roi gwybod i'r panel am y praesept diwygiedig mae’n bwriadu ei gyhoeddi.

Lle mae adroddiad y panel yn dangos eu bod wedi gwrthod y praesept am ei fod yn:

rhy **uchel**, mae'n rhaid i'r praesept diwygiedig fod yn is na'r praesept a gynigiwyd yn flaenorol.

rhy **isel**, mae'n rhaid i'r praesept diwygiedig fod yn uwch na'r praesept a gynigiwyd yn flaenorol.

Dim ond y praesept arfaethedig cyntaf gaiff y PHTh ei wrthod. Rhaid i wrthod o’r fath gael ei gytuno gan ddwy ran o dair o aelodau PHTh (yr aelodaeth lawn yn hytrach na'r rhai sy'n bresennol mewn cyfarfod). Pan fo gwrthod yn digwydd, rhaid i'r adroddiad i'r CHTh gynnwys datganiad i'r perwyl hwnnw.

**Adolygiad y Panel o'r praesept diwygiedig**

Ar ôl derbyn ymateb oddi wrth y CHTh yn eu hysbysu o’r cynnig praesept diwygiedig, mae’n rhaid i’r panel adolygu'r cynnig praesept diwygiedig a gwneud ail adroddiad i'r CHTh erbyn 22 Chwefror. Gall yr adroddiad hwn:

- nodi a yw'r panel yn derbyn neu'n gwrthod y praesept diwygiedig (er nad yw gwrthod yn atal y CHTh rhag cyhoeddi’r praesept diwygiedig); a
- gwneud argymhellion, gan gynnwys argymhellion ar y praesept y dylid ei gyhoeddi.

Os bydd y panel yn methu â gwneud ail adroddiad i'r CHTh erbyn 22 Chwefror, gall y CHTh gyhoeddi’r praesept diwygiedig.


**Cyhoeddi'r praesept**

Ac eithrio lle mae'r panel yn methu ag adrodd ar y praesept arfaethedig erbyn 8 Chwefror neu wneud ail adroddiad ar y praesept diwygiedig erbyn 22 Chwefror, bydd y broses graffu yn dod i ben pan fydd y CHTh yn rhoi ei ymateb i'r panel ar eu hail adroddiad.

Gall y CHTh wedyn:

- gyhoeddi praesept diwygiedig; neu
- gyflwyno praesept wahanol, er:
  - ➢ na ddylent gyhoeddi praesept sydd yn uwch na'r praesept diwygiedig os cafodd y praesept diwygiedig ei gostwng yn dilyn adroddiad cychwynnol y panel ar y praesept arfaethedig cyntaf gan nodi y cafodd ei wrthod am ei fod yn rhy uchel;
  - ➢ na ddylent gyhoeddi praesept sydd yn is na'r praesept diwygiedig os cafodd y praesept diwygiedig ei chodi yn dilyn adroddiad cychwynnol y panel ar y praesept arfaethedig cyntaf gan nodi y cafodd ei wrthod am ei fod yn rhy isel;

**Y broses ar gyfer craffu PHTh o braesept arfaethedig y CHTh**



| | | |
|---|---|---|
| | | **ddiwygiedig neu wahanol** |
| 3 | | · |

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| **DYDDIAD:** | 31 Hydref 2016 |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Richard Jarvis - Swyddog Arweiniol a Chynghorydd Cyfreithiol ar gyfer Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru<br><br>Dawn Hughes - Swyddog Cefnogi i'r Panel Heddlu a Throsedd |
| **TESTUN:** | Crynodeb o'r cwynion sydd wedi dod i law |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Darparu'r Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru gyda chrynodeb o gwynion yn ymwneud â'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu blaenorol, Mr Winston Roddick CB QC yn ystod ei gyfnod yn y swydd.

1.2 Hysbysu'r Panel Heddlu a Throsedd nad oes unrhyw gwynion wedi eu derbyn mewn perthynas â'r Heddlu a Throsedd newydd ei ethol, Mr Arfon Jones hyd at adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

## 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Derbyniodd y Panel Heddlu a Throsedd gyfanswm o 6 cwyn cofnodadwy yn erbyn y Comisiynydd Heddlu a Throsedd blaenorol yn ystod ei gyfnod yn y swydd (gweler Atodiad 1).

2.2 Roedd pump o'r cwynion eisoes wedi cael eu hadrodd i'r Panel Heddlu a Throsedd, ac roeddent rŵan wedi'u cau.

2.3 Derbyniodd y Panel Heddlu a Throsedd gŵyn pellach ar 13 Ionawr 2016, a oedd yn ymwneud â sefyllfa cyflogaeth Prif Weithredwr blaenorol Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Gellir gweld manylion pellach y gŵyn hon ym mharagraffau 4.3 - 4.6 o'r adroddiad hwn.

2.4 Fel yr adroddwyd yn flaenorol, cafodd y Panel Heddlu a Throsedd 2 gŵyn pellach, fodd bynnag, nid oeddent yn gofnodadwy, gan nad oedd Adran Safonau Proffesiynol Heddlu Gogledd Cymru eto wedi gorffen eu hymchwiliadau. Nid oes unrhyw ohebiaeth bellach wedi dod i law gan yr achwynwyr mewn perthynas â'r cwynion hyn, felly ni fydd unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd ar hyn o bryd.

2.5 Er bod gan Banel yr Heddlu a Throsedd y cylch gwaith yn unig i ddelio â chwynion yn erbyn Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a’r Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd, mae Panel yr Heddlu a Throsedd wedi derbyn 5 cwyn ynghylch Heddlu Gogledd Cymru rhwng Ionawr 2016 a Hydref 2016. Mae’r cwynion hyn wedi cael eu hanfon ymlaen at yr Adran Safonau Proffesiynol ac anfonwyd copïau at Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Bod Panel yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn nodi'r adroddiad a'r camau gweithredu sydd wedi eu cymryd mewn perthynas â'r cwynion a gafwyd.

## 4. GWYBODAETH GEFNDIR

4.1 Mae gan Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru gyfrifoldeb statudol o ran trin a phenderfynu ar gwynion penodol a wnaed yn erbyn y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

4.2 O 1 Chwefror 2016, cytunodd Panel yr Heddlu a Throsedd i ddirprwyo ei swyddogaethau i Swyddog Arweiniol Panel yr Heddlu a Throsedd a’i Ymgynghorydd Cyfreithiol, gan fod y Swyddog Arweiniol blaenorol (Mr. Ken Finch) wedi gadael yr Awdurdod Lletyol.

4.3 Derbyniodd Panel yr Heddlu a Throsedd gŵyn ar 13 Ionawr 2016 yn ymwneud ag ymddygiad y Comisiynydd Heddlu a Throsedd blaenorol o ran y diswyddiadau gwirfoddol ar gyfer Prif Weithredwr blaenorol Swyddfa Panel yr Heddlu a Throsedd.

4.4 Yn unol â Gweithdrefn Gwynion Panel yr Heddlu a Throsedd, ymgynghorodd y Swyddog Arweiniol â'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd ac un Aelod Annibynnol wrth benderfynu ar y math o gŵyn a dderbyniwyd, y strategaeth ar gyfer rheoli'r gŵyn i’w datrys yn anffurfiol a datrysiad terfynol y Panel ar y gŵyn.

4.5 Er bod Panel yr Heddlu a Throsedd wedi ei wahardd yn benodol rhag ymchwilio i'r gŵyn yn rhinwedd y darpariaethau statudol, caniateir Panel yr Heddlu a Throsedd i annog, hwyluso a chynorthwyo i ddatrys y gŵyn yn anffurfiol. Fel rhan o'r broses hon, mae Panel yr Heddlu a Throsedd yn gofyn am wybodaeth bellach ac eglurhad gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd mewn perthynas â'r gŵyn.

4.6 Roedd Panel yr Heddlu a Throsedd o'r farn bod ymddygiad Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd wedi bod yn addas ac yn briodol o dan yr amgylchiadau. Ymchwiliodd Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol Cymru (Swyddfa Archwilio Cymru) y mater a ysgrifennodd at Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar 18 Awst 2016 yn cadarnhau nad oedd yn bwriadu cymryd unrhyw gamau pellach ynghylch y mater hwn (oni bai bod unrhyw wybodaeth newydd yn cael ei ddwyn i'w sylw).

4.7 Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn gyfrifol am ddelio â chwynion ynglŷn â'r Prif Gwnstabl. Caiff cwynion eu cofnodi yn unol â Deddf Diwygio'r Heddlu 2002 a Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011. Bydd ystadegau yn cael eu cyhoeddi yn flynyddol ac yn chwarterol gan Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu – mae’r ystadegau yn darparu manylion am gyfanswm y cwynion a gafwyd gan bob llu heddlu.

## 5. YMGYNGHORI

5.1 Ymgynghorwyd â Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd mewn perthynas â'r cwynion a ddaeth i law.

## 6. ADNODDAU

6.1 Er bod y Swyddfa Gartref yn darparu grant i'r Awdurdod Lletyol ar gyfer costau gweinyddol, mae’r gofyniad i ddatrys cwynion nad ydynt yn droseddol yn erbyn Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn cymryd swm anghymesur o amser Swyddog.

## 7. RISG

7.1 Er mwyn cydymffurfio â'r Weithdrefn Gwyno, mae angen rhoi gwybod am grynodeb o bob cwyn (fel y gellir rhoi gwybod yn gyhoeddus) ac arfer ei swyddogaethau at ddibenion monitro.

## 8. RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD

8.1 Hysbysu'r Panel Heddlu a Throsedd o nifer y cwynion a ddaw i law yn rheolaidd.

# Complaints Received by the North Wales Police and Crime Panel

| Complaint ID: 1 | Date Compaint Received | Complaint Category | Complaint Type |
|---|---|---|---|
| | 07/03/13 | Commissioner | Conduct Matter |

**Details of Complaint**

That Winston Roddick CB QC was not entitled to stand for election as the North Wales Police and Crime Commissioner because he did not qualify in accordance with appropriate legislation

**Action**

Referred to IPCC

**Resolution**

No further action to be taken by IPCC - Matter closed

| Complaint ID: 2 | Date Compaint Received | Complaint Category | Complaint Type |
|---|---|---|---|
| | 03/03/13 | Commissioner | General |

**Details of Complaint**

That Winston Roddick CB QC had a dismissive attitude to a complaint made about the Chief Constable of the North Wales Police

**Action**

Referred to Panel

**Resolution**

Matter does not fall within the definition of misconduct - Matter closed

| Complaint ID: 3 | Date Compaint Received | Complaint Category | Complaint Type |
|---|---|---|---|
| | 16/07/13 | Commissioner | Conduct Matter |

**Details of Complaint**

That Winston Roddick CB QC failed to notify the ICO that he was processing personal information from the date that he took up office on 22 November 2012.

**Action**

Referred to IPCC

**Resolution**

OPCC now registered with ICO - Matter closed

| Complaint ID: 4 | Date Compaint Received | Complaint Category | Complaint Type |
|---|---|---|---|
| | 12/09/13 | Commissioner | General |

**Details of Complaint**

That Winston Roddick CB QC interfered with police operational matters.

**Action**

Referred to Panel

**Resolution**

The PCP is happy that the PCC is a conduit in such matters and no further action to be undertaken by the PCP - Matter closed

| Complaint ID: 5 | Date Compaint Received | Complaint Category | Complaint Type |
|---|---|---|---|
| | 15/10/13 | Other | General |

**Details of Complaint**

That the Police failed to record complaints

**Action**

Referred to Panel

**Resolution**

Matter does not fall within the remit of the PCP - Matter closed

| Complaint ID: 6 | Date Compaint Received | Complaint Category | Complaint Type |
|---|---|---|---|
| | 13/01/16 | Commissioner | Conduct Matter |

**Details of Complaint**

To request that the PCP launches an urgent investigation into the conduct of the PCC for North Wales with regards to the employment situation of the previous Chief Executive (CEO) of the OPCC.

**Action**

Referred to Panel

**Resolution**

The PCP is of the opinion that the PCC's conduct has been appropriate and proper. The CEO applied for voluntary redundancy, met the criteria and the PCC had no option but to sanction the request - Matter closed

EITEM RHAGLEN 8b

# PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

## RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

| | |
|---|---|
| Swyddog Cyswllt: | Dawn Hughes |
| | Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgorau<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Bodlondeb<br>Conwy<br>LL28 5NF |
| E-bost: | dawn.hughes@conwy.gov.uk |
| Rhif Ffôn: | 01492 576061 |

| Dyddiad | Testun | Swyddog Cyfrifol<br>(gyda chyfeiriadau e-bost) |
|---|---|---|
| **12 Rhagfyr 2016** | **Diweddariad ar y Gyllideb ar gyfer 2016/17** | Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid (SCHTh) |
| **23 Ionawr 2017** | **Adroddiad Gosod y Gyllideb a Phraesept 2017/18**<br>Ystyried y praesept arfaethedig ar gyfer 2017/18. | Arfon Jones, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd |
| **23 Ionawr 2017** | **Cynllun Ariannol Tymor Canolig**<br>Nod y papur hwn yw rhoi manylion ar sut mae'r gyllideb wedi cael ei chydbwyso hyd yma a'r cynlluniau ar gyfer cydbwyso blynyddoedd y dyfodol gan gynnal perfformiad a sicrhau y cwblheir blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. | Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid (SCHTh) |
| **23 Ionawr 2017**<br>**13 Mawrth 2017** | **Cynllun yr Heddlu a Throsedd** | Arfon Jones, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd |
| **13 Mawrth 2017** | **Amserlen cyfarfodydd ar gyfer 2017/18** | Awdurdod sy'n Cynnal |

| Dyddiad | Testun | Swyddog Cyfrifol (gyda chyfeiriadau e-bost) |
|---|---|---|
| **Eitemau'r Dyfodol** | | |
| **I'w gadarnhau** | **Adroddiad blynyddol o Aelodaeth Panel yr Heddlu a Throsedd**<br>Sicrhau bod Aelodau Etholedig y Panel, cyhyd ag y bo hynny'n ymarferol, yn adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol a demograffig cymunedol Gogledd Cymru. | Awdurdod sy'n Cynnal |
| **I'w gadarnhau** | **Adolygu Cylch Gorchwyl Panel yr Heddlu a Throsedd**<br>Adolygu'r Cylch Gorchwyl i sicrhau ei fod yn parhau'n addas at ei bwrpas. | Awdurdod sy'n Cynnal |